



# Adroddiad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol (AGLI) 2016-2017

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

## Adroddiad Archwilio yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Rhif y fersiwn:	1
Cyhoeddwyd gyntaf:	21 Mawrth 2017
Diweddarwyd:	
Paratowyd gan:	Lindsey Hilldrup, Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

### Rhestr Ddosbarthu:

Goruchwylwyr Bydwraedd

Pennaeth Bydwreigiaeth

Cyfarwyddwr Nyrsio

Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd

**Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

## Tudalen

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b> .....	<b>3</b>
<b>1 Cyflwyniad</b> .....		<b>4</b>
<b>2 Safonau Goruchwyliaeth</b> .....		<b>4</b>
<b>3 Nodau Archwiliad yr Awdurdod Goruchwylio Lleol</b> .....		<b>5</b>
<b>4 Methodoleg</b> .....		<b>5</b>
<b>5 Y Broses Archwilio</b> .....		<b>5</b>
• <b>Adolygiad o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn unol ag asesiad o'r graddau y cydymffurfir â Rheolau a Safonau Bydwagedd (NMC 2012), gan gynnwys adolygiad o'r cynllun gweithredu i gyflawni argymhellion yr AGLI yn sgil ymweliad archwilio 2015/16</b> .....		<b>5</b>
<b>6 Ymweliad Archwilio Blynnyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol</b> .....		<b>6</b>
<b>7 Asesiad o'r Graddau y Cydymffurfir â Rheolau a Safonau Bydwagedd (NMC 2012)</b> .....		<b>7</b>
<b>8 Canfyddiadau'r Adolygydd Lleyg</b> .....		<b>21</b>
<b>9 Crynodeb o'r Argymhellion</b> .....		<b>25</b>
<b>10 Monitro</b> .....		<b>28</b>
<b>11 Casgliad</b> .....		<b>29</b>
<b>12 Atodiadau</b> .....		<b>31</b>
1.1 Atodiad 12.1 – Rhaglen AGLI Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru .....		31
1.2 Atodiad 12.2 – Holiadur yr AGLI.....		33
1.3 Atodiad 12.3 – Holiadur yr Adolygydd Lleyg .....		52

## 1 Cyflwyniad

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) sy'n pennu'r rheolau a'r safonau ar gyfer swyddogaeth yr Awdurdodau Goruchwylio Lleol (AGLI) a'r broses o oruchwylio bydwagedd. Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI) yn atebol yn broffesiynol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Swyddogaeth Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yw sicrhau bod proses statudol o oruchwylio bydwagedd ar waith er mwyn sicrhau bod gofal bydwreigiaeth diogel o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu i fenywod.

Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn cael eu penodi gan yr AGLI, y mae ei swyddogaeth yn rhan o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Prif gyfrifoldeb yr AGLI yw diogelu'r cyhoedd drwy fonitro ansawdd ymarfer bydwreigiaeth drwy gyfrwng goruchwyliaeth statudol ar fydwragedd. Bydd yr AGLI yn penodi Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI i gyflawni swyddogaethau'r AGLI.

Mae'n ofynnol i bob bydwraig sy'n ymarfer yn y Deyrnas Unedig fod â Goruchwylwr Bydwagedd a enwir. Bydwraig yw Goruchwylwr Bydwagedd, sydd wedi cymhwysu ers o leiaf dair blynedd ac sydd wedi dilyn cwrs paratoi mewn goruchwyliaeth ar fydwragedd (Rheol 8, NMC 2012). Mae pob goruchwylwr yn goruchwylio tua 15 o fydwragedd ac mae'n unigolyn y gall bydwagedd droi ato i gael cyngor, arweiniad a chymorth. Bydd y Goruchwylwr Bydwagedd yn monitro gofal drwy gwrdd â phob bydwraig yn flynyddol (Rheol 9, NMC 2012), archwilio dull y bydwagedd o gadw cofnodion, ac ymchwilio i unrhyw adroddiadau ynghylch problemau/pryderon o ran ymarfer. Maent hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i unrhyw ddigwyddiadau difrifol a rhoi gwybod i Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI amdanynt (Rheol 10, NMC 2012).

Mae Rheol 7 o ddogfen *Midwives Rules and Standards* (NMC 2012) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI gwblhau archwiliad blynyddol o ymarfer bydwagedd yn ei ardal, a'r oruchwyliaeth arnynt, er mwyn sicrhau bod gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu cyflawni. Mae'r archwiliad blynyddol yn cyfrannu at adroddiad blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Rheol 13).

## 2 Safonau Goruchwyliaeth

1. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd ar gael i gynnig arweiniad a chymorth i fenywod sy'n defnyddio gwasanaeth mamolaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran darparu gofal sy'n canolbwyntio ar fenywod.
2. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn atebol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol yn uniongyrchol am bob mater sy'n ymwneud â'r oruchwyliaeth statudol ar fydwragedd ac mae fframwaith lleol ar gael i ategu'r swyddogaeth statudol.
3. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn darparu arweinyddiaeth broffesiynol ac yn meithrin darpar arweinwyr.
4. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn gyfeillgar ac yn hygyrch i fydwragedd i'w cynorthwyo gyda'u ymarfer.
5. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn helpu bydwagedd i ddarparu amgylchedd diogel ar gyfer ymarfer bydwreigiaeth sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth.

*Rheolau a Safonau Bydwagedd (NMC 2012) (cyfieithiad)*

### 3 Nodau Archwiliad yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Diben archwiliad blynyddol 2016–17 yw:

- Cadarnhau bod argymhellion yr archwiliad blaenorol wedi'u cyflawni
- Cadarnhau bod Goruchwylwyr Bydwagedd yn cyflawni'r swyddogaeth oruchwylio ym mhob bwrdd iechyd yn ôl safonau'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth
- Sicrhau bod systemau a phrosesau perthnasol ar waith er diogelwch mamau a babanod
- Adolygu effaith goruchwyliaeth ar ymarfer bydwreigiaeth
- Gwneud awgrymiadau ynglŷn â datblygiadau pellach a gwelliannau parhaus
- Sicrhau bod ymarfer bydwreigiaeth wedi'i seilio ar dystiolaeth a'i fod yn ymateb i anghenion menywod
- Asesu a datblygu dealltwriaeth cyfranogwyr o'r newidiadau i'r drefn oruchwylio.

Bydd canfyddiadau'r gwaith archwilio ledled Cymru yn cyfrannu at y trywydd a ddilynir ar gyfer cynorthwyo bydwagedd pan wneir y newidiadau deddfwriaethol i adael y drefn goruchwyliaeth statudol yn 2017.

### 4 Methodoleg

Fel rhan o'r broses o archwilio safonau'r AGLI, bydd tîm archwilio'r AGLI yn gwirio tystiolaeth. Bydd hunanadolygiad yn cael ei gynnal drwy wneud cyflwyniad i'r tîm adolygu, a bydd hwn yn crybwyll llwyddiannau a heriau. Cydnabyddir bod hunanadolygu'n ddull pwerus sy'n ysgogi datblygiad proffesiynol ac sy'n creu ymwybyddiaeth o atebolrwydd personol.

Bydd y tîm adolygu'n cwblhau adolygiad o'r dystiolaeth cyn yr archwiliad, gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid o'r graddau y mae'r goruchwylwr bydwagedd unigol yn cydymffurfio â phroses ymchwilio'r AGLI.

Ym mlwyddyn derfynol hon y drefn o gael yr AGLI i archwilio goruchwyliaeth statudol, mae'r dull a ddefnyddir yn canolbwyntio ar y rôl statudol greiddiol a ddisgrifir yn nogfen Rheolau a Safonau Bydwagedd.

### 5 Y Broses Archwilio

Ar gyfer 2016/17, roedd y broses archwilio'n cynnwys yr elfennau a ganlyn:

- Adolygiad o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn unol ag asesiad o'r graddau y cydymffurfir â Rheolau a Safonau Bydwagedd (NMC 2012), gan gynnwys adolygiad o'r cynllun gweithredu i gyflawni argymhellion yr AGLI yn sgil ymweliad archwilio 2015/16
- Ymweliad archwilio, gan gynnwys holi bydwagedd a menywod.

## 6 Ymweliad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Cynhaliwyd ymweliad archwilio blynyddol yr AGLI ar 13 Hydref 2016 gan Lindsey Hilldrup, Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI, gyda chymorth Lynne Smith Hurley, Goruchwyliwr Cymheiriaid Bydwagedd; Alison Jones, Goruchwyliwr Cymheiriaid Bydwagedd; a Diana Milne, cynrychiolydd lleyg.

Roedd tîm goruchwylio Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cynnwys Rhian Boase, sef y Goruchwyliwr Bydwagedd sy'n gadael, a Sue Rees, a benodwyd yn Oruchwyliwr Bydwagedd i'r bwrdd iechyd yn ddiweddar. Roedd 46 o fydwragedd mewn swydd ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ar ddiwedd Chwarter Un, a 0.4 o Oruchwyliwr Bydwagedd cyfwerth ag amser llawn. Mae hyn yn cyfateb i un Goruchwyliwr Bydwagedd i bob 11 o fydwragedd, sydd o fewn terfyn y gymhareb ofynnol a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, sef un Goruchwyliwr Bydwagedd i bob 15 o fydwragedd.

Mae gan y Goruchwyliwr Bydwagedd gweithredol lwyth achosion o fydwragedd ac mae'n cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu cyngor a chymorth goruchwylio bob awr o'r dydd, drwy rota ar-alwad Cymru gyfan.

Mae'r Goruchwyliwr Bydwagedd sy'n gadael wedi cyfrannu at y broses o gasglu tystiolaeth ac o lunio'r cyflwyniad yn yr ymweliad archwilio. Roedd hwn yn cwmpasu'r timau, y llwyddiannau a'r heriau drwy gydol 2015/16.

## 7 Asesiad o'r Graddau y Cydymffurfir â Rheolau a Safonau Bydwragedd (NMC 2012)

<b>Rheol 4 Hysbysiadau gan yr Awdurdod Goruchwylio Lleol [cyfieithiad o'r rheolau]</b>	
<p><b>Rheol</b></p> <p>(1) Rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon gyhoeddi:            (a) enw a chyfeiriad ei swyddog bydweigiaeth y mae hysbysiad o dan Reol 3(2) neu (3) i'w gyflwyno iddo;            (b) y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i fydwraig roi hysbysiad o dan Reol 3(3).</p> <p>(1A) Rhaid i'r awdurdod goruchwylio lleol yn Lloegr gyhoeddi:            (a) enw a chyfeiriad pob un o'i swyddogion bydweigiaeth y mae hysbysiad o dan Reol 3(2) neu (3) i'w gyflwyno i un ohonynt;            (b) y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i fydwraig roi hysbysiad o dan Reol 3(3).</p> <p>(2) Rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol roi gwybod i'r Cyngor, ar y ffurf ac yn ôl yr amllder y mae'r Cyngor yn gofyn amdanynt, am unrhyw hysbysiad a roddir iddo o dan Reol 3.</p> <p><b>Safon yr AGLI</b></p> <p>1 Er mwyn cyflawni'r gofynion statudol ar gyfer goruchwylio bydwragedd, rhaid i awdurdod goruchwylio lleol sicrhau:            1.1 bod hysbysiadau o'r bwriad i ymarfer yn cael eu hanfon at y Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth erbyn y dyddiad cyflwyno blynyddol a bennir gan y Cyngor.            1.2 bod hysbysiadau o'r bwriad i ymarfer a geir ar ôl y dyddiad cyflwyno blynyddol yn cael eu hanfon at y Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.</p>	
<b>Disgwyliad yr AGLI</b>	<b>Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio</b>
<p>Byddai ffurflenni ar gyfer hysbysu am y bwriad i ymarfer, wedi'u personoli, wedi cael eu hanfon at bob bydwaig y mae ei henw'n ymddangos ar y gofrestr effeithiol fel ar 31 Mawrth 2015. Er mwyn i fydwragedd fod yn gymwys i gyflwyno hysbysiad o'r bwriad i ymarfer, rhaid iddynt fod â chofrestriad effeithiol ar y rhan o gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth sy'n ymwneud â bydwragedd a bwriadu ymarfer bydweigiaeth.</p> <p>Cyn i'r bwriad i ymarfer gael ei lofnodi, rhaid i'r Goruchwyliwr Bydwragedd a enwir fod wedi cynnal asesiad o'r graddau y mae'r fydwraig wedi cydymffurfio â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth i gynnal cofrestriad</p>	<p>Canfuwyd bod pob bydwaig wedi cyflwyno'i ffurflen ynghylch y Bwriad i Ymarfer i oruchwyliwr ac yn gymwys i ymarfer ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth.</p> <p>Gallai'r Goruchwyliwr Bydwragedd ddisgrifio proses glir a chadarn ar gyfer cyflwyno ffurflenni Bwriad i Ymarfer.</p> <p>Mae'r Goruchwyliwr Bydwragedd yn sicrhau bod bydwragedd yn cydymffurfio â'r safon Ailddilysu cyn llofnodi eu ffurflen Bwriad i Ymarfer drwy gyfeirio at eu cofnodion adolygu blynyddol unigol, sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch eu horiau ymarfer a datblygiad proffesiynol parhaus.</p> <p>Bu 100% o'r bydwragedd yn destun adolygiad blynyddol yn y 12 mis cyn yr</p>

<p>bydwreigiaeth a rhaid cadarnhau ei bod yn gymwys i ymarfer yn fydwraig. Rhaid i'r Goruchwyliwr Bydwagedd a enwir ddogfennu'r dystiolaeth y mae wedi ei hadolygu ar gyfer pob bydwraig gan nodi sut y mae'n bodloni gofynion addysg ac ymarfer ar ôl cofrestru (PREP) y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth o ran 35 awr o weithgarwch dysgu (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) a 450 awr o ymarfer cofrestredig ym mhob cylch Hysbysu am Ymarfer 3 blynedd.</p> <p>Dylai Goruchwylwyr Bydwagedd ddefnyddio safonau Aiddilysu'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth i gael arweiniad.</p>	<p>archwiliad, sy'n cydymffurfio â'r gofyniad bod 100% o'r bydwagedd cymwys wedi cael adolygiad blynyddol.</p>
------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------

**Arferion i'w nodi**

**Bu 100% o'r bydwagedd yn destun adolygiad blynyddol yn y 12 mis blaenorol**

**Cydymffurfiwyd yn llwyr o ran cofnodion Bwriad i Ymarfer a'u dileu**

**Cydymffurfiwyd yn llwyr o ran datganiadau Bwriad i Ymarfer misol**

**Meysydd i'w gwella**

- Ddim yn berthnasol

**Canlyniad**

**Rheol 4 wedi'i chyflawni**



## Rheol 6 Cofnodion

### Rheol

- (1) Rhaid i fydwraig, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod pob cofnod sy'n ymwneud â'r gofal neu'r cyngor a roddir i fenyw neu'r gofal a roddir i faban, ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r gofal hwnnw:
- (a) yn cael ei drosglwyddo i gyflogwr y fydwraig er mwyn cadw'r cofnod yn ddiogel; neu
  - (b) yn cael ei gadw'n ddiogel gan y fydwraig ei hun os yw'n hunangyflogedig: ond os nad yw'r fydwraig yn gallu gwneud hyn, yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdod goruchwylio lleol yng nghyswllt ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol i'w gadw'n ddiogel.
- (2) Pan nad yw bydwraig wedi'i chofrestru gyda'r Cyngor mwyach, rhaid iddi sicrhau, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, fod pob cofnod sy'n gysylltiedig â'r gofal neu'r cyngor a roddir i fenyw neu'r gofal a roddir i faban yn cael ei drosglwyddo i'w gadw'n ddiogel i'r awdurdod goruchwylio lleol a oedd, cyn i'w chofrestrriad ddod i ben, yn awdurdod goruchwylio lleol i'r fydwraig yng nghyswllt ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol.

### Safon yr AGLI

- 1 Rhaid i awdurdod goruchwylio lleol gyhoeddi canllawiau lleol ar gyfer trosglwyddo cofnodion bydwreigiaeth o fydwragedd hunangyflogedig, a ddylai gynnwys:
- 1.1 Pryd y mae'r cofnodion i'w trosglwyddo.
  - 1.2 I bwy y mae'r cofnodion i'w trosglwyddo.
  - 1.3 Dulliau o sicrhau bod cofnodion yn cael eu hanfon yn ddiogel.
  - 1.4 Dogfennau i gofnodi trosglwyddiad o'r fath.

### Y safon fydwragedd

- 1 Rhaid i bob cofnod sy'n gysylltiedig â gofal y fenyw neu'r baban gael ei gadw'n ddiogel am 25 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys dyddiaduron gwaith os ydynt yn cynnwys gwybodaeth glinigol.
- 2 Dylai bydwreigiaeth hunangyflogedig sicrhau bod menywod yn gallu cael gafael ar eu cofnodion a dylent roi gwybod iddynt am leoliad eu cofnodion os yw'r rhain yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod goruchwylio lleol.

### Disgwyliad yr AGLI

Mae bydwreigiaeth yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolyn a/neu wybodaeth glinigol yn cael eu cadw'n ddiogel (mae hyn yn cynnwys dyddiaduron gwaith).

Rhaid i Oruchwylwyr Bydwreigiaeth roi gwybod i fydwragedd sy'n ymarfer yn hunangyflogedig pryd y dylent drosglwyddo cofnodion i'r AGLI a rhoi gwybod iddynt am bolisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU ynghylch trosglwyddo cofnodion bydwreigiaeth ar gyfer bydwreigiaeth hunangyflogedig.

### Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio

Yn yr ymweliad archwilio, canfuwyd bod pob cofnod mamolaeth yn cael ei gadw'n ddiogel.

Mae'r polisi cofnodion sefydliadol yn cynnwys manylion am y gofyniad i gadw cofnodion mamolaeth am 25 mlynedd.

Ar hyn o bryd, nid oes dim bydwreigiaeth hunangyflogedig yn y bwrdd iechyd ond roedd y Goruchwylwr Bydwreigiaeth yn gallu disgrifio'r broses ar gyfer cofnodion bydwreigiaeth hunangyflogedig.

### Arferion i'w nodi

**Mae copïau papur wedi'u cadw'n ddiogel er mwyn paratoi ar gyfer eu trosglwyddo i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

**Meysydd i'w gwella**

- Ddim yn berthnasol

**Canlyniad**

**Rheol 6 wedi'i chyflawni**

## Rheol 7 Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

### Rheol

(1) Rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, yn unol ag unrhyw safonau a bennir gan y Cyngor o dan erthygl 43(3) o'r Gorchymyn, benodi swyddog bydwreigiaeth sy'n bodloni'r amodau perthnasol ac a fydd yn gyfrifol am arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â goruchwylio bydwagedd sy'n ymarfer yn ei ardal.

(1A) Rhaid i'r awdurdod goruchwylio lleol yn Lloegr, yn unol ag unrhyw safonau a bennir gan y Cyngor o dan erthygl 43(3) o'r Gorchymyn, benodi nifer ddigonol o swyddogion bydwreigiaeth sy'n bodloni'r amodau perthnasol ac a fydd yn gyfrifol am arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â goruchwylio bydwagedd sy'n ymarfer yn ei ardal.

(2) Yr amodau perthnasol y sonnir amdanynt ym mharagraffau (1) ac (1A) yw bod rhaid i swyddog bydwreigiaeth:

(a) fod yn fydwraig sy'n ymarfer; a

(b) cyflawni'r safonau gofynnol o ran profiad ac addysg ar gyfer swydd swyddog bydwreigiaeth fel y'u pennir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

### Safonau'r AGLI

1 Er mwyn cyflawni ei swyddogaeth oruchwylio drwy swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol, rhaid i'r awdurdod goruchwylio lleol:

1.1 Defnyddio manyleb person a meini prawf creiddiol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wrth benodi swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol.

1.2 Cynnwys person a enwebwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a bydwraig sydd â phrofiad priodol yn y broses o ddewis a phenodi.

1.3 Rheoli perfformiad swyddog bydwreigiaeth penodedig yr awdurdod goruchwylio lleol drwy gyfrwng arfarniadau (blynyddol) rheolaidd ac i sicrhau ei fod yn cyflawni ei swydd yn effeithlon, yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch ymarfer bydwreigiaeth yn ei ardal.

1.4 Darparu digon o adnoddau i alluogi swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwylio lleol i gyflawni'r swyddogaeth oruchwylio statudol.

2 Er mwyn sicrhau bod gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu cyflawni, rhaid i'r awdurdod goruchwylio lleol alluogi swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol i wneud yr hyn a ganlyn:

2.1 Gan ddefnyddio fframwaith priodol, gwblhau archwiliad blynyddol o'r oruchwyliaeth ar fydwragedd yn ei ardal.

2.2 Monitro ymarfer goruchwylwyr bydwagedd fel rhan o'r broses o gynnal a gwella ansawdd y ddarpariaeth o oruchwyliaeth statudol ar fydwragedd.

2.3 Cynnwys menywod sy'n defnyddio gwasanaethau bydwagedd yn y broses o sicrhau effeithiolrwydd yr oruchwyliaeth ar fydwragedd.

3 Rhaid peidio â dirprwyo swydd swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol.

4 Rhaid i swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol beidio â gweithredu'n oruchwylwr bydwagedd.

### Canllawiau

1 Mae swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol yn chwarae rhan hollbwysig mewn llywodraethu clinigol drwy sicrhau bod safonau'r oruchwyliaeth ar fydwragedd ac ymarfer bydwreigiaeth yn bodloni'r rhai y mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn nodi eu bod yn ofynnol. Mae goruchwyliaeth ar fydwragedd wedi'i chysylltu'n agos â llywodraethu clinigol a dylai fod yn rhan annatod o brosesau llywodraethu y tu mewn i'r awdurdod goruchwylio lleol.

2 Dylai swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol hyrwyddo'r drefn o fod yn agored ac yn dryloyw wrth oruchwylio bydwagedd. Mae'r swydd yn un ddiuedd gan nad yw'n cynrychioli buddiannau unrhyw ddarparwr gwasanaethau iechyd.

3 Dylai menywod allu cael gafael ar swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol yn uniongyrchol os ydynt am drafod unrhyw agwedd ar eu gofal nad ydynt yn teimlo ei bod wedi cael sylw drwy gyfryngau eraill.

4 Dylai swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol sicrhau bod goruchwylwyr bydwagedd

ar gael i gynnig arweiniad a chymorth i fenywod sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth a bod y gwasanaethau hyn yn ymateb i anghenion menywod sy'n agored i niwed a all ei chael yn anos cael gafael ar ofal.

<b>Disgwyliad yr AGLI</b>	<b>Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio</b>
<p>Bydd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn hwyluso gwaith Swyddog Bydwragedd yr AGLI o gwblhau archwiliad blynyddol o'r oruchwyliaeth ar fydwragedd yn ei ardal.</p> <p>Rhaid i Oruchwylwyr Bydwragedd gynnwys y menywod sy'n defnyddio gwasanaethau bydwragedd ac ymgysylltu â nhw wrth sicrhau effeithiolrwydd yr oruchwyliaeth ar fydwragedd.</p> <p>Rhaid i Oruchwylwyr Bydwragedd fod ar gael i gynnig arweiniad a chymorth i fenywod sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth. Dylai'r gwasanaethau hyn ymateb i anghenion menywod sy'n agored i niwed a all ei chael yn anos cael gafael ar ofal.</p>	<p>Mae'r cynllun gweithredu o gyfnod archwilio 2014/15 wedi'i adolygu a'i fonitro mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd.</p> <p>Cynhaliwyd archwiliad blynyddol yr AGLI ar gyfer blwyddyn ymarfer 2015/2016.</p> <p>Roedd tystiolaeth fod cynnydd wedi'i wneud yn ôl argymhellion archwiliad blaenorol yr AGLI.</p> <p>Bu'r tîm archwilio'n adolygu gwefan y bwrdd iechyd, a oedd yn cynnwys ystod o wybodaeth llawn croeso i fenywod, gan gynnwys pryd a sut i alw Goruchwylwyr Bydwragedd, a dolenni i amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol.</p> <p>Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymgysylltu'n dda â'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys menywod sy'n agored i niwed a all ei chael yn anos cael gafael ar ofal.</p>
<b>Arferion i'w nodi</b>	
<b>Ymwybyddiaeth gynyddol o Oruchwylwyr Bydwragedd ymysg defnyddwyr gwasanaethau</b>	
<b>Meysydd i'w gwella</b>	
<b>Gwella ymwybyddiaeth defnyddwyr gwasanaethau ynglŷn â phryd y dylid galw Goruchwylwyr Bydwragedd</b>	
<b>Canlyniad</b>	
<b>Rheol 7 wedi'i chyflawni</b>	

## Rheol 8 Goruchwylwyr Bydwagedd

### Rheol

- (1) Rhaid i awdurdod goruchwylwyr lleol benodi'r hyn y mae'r Cyngor yn ei ystyried yn nifer ddigonol o oruchwylwyr bydwagedd i arfer goruchwyliaeth ar fydwagedd sy'n ymarfer yn ei ardal.
- (2) Rhaid i oruchwylwr bydwagedd:
  - (a) fod yn fydwraig sy'n ymarfer; a
  - (b) cyflawni'r safonau gofynnol o ran profiad ac addysg ar gyfer swydd goruchwylwr bydwagedd fel y'u pennir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.
- (3) Ar ôl ei phenodi, rhaid i oruchwylwr bydwagedd gwblhau'r cyfnodau dysgu perthnasol hynny sy'n gysylltiedig â'r oruchwyliaeth ar fydwagedd y bydd y Cyngor yn eu gwneud yn ofynnol o bryd i'w gilydd.

### Safonau'r AGLI

- 1 Mae goruchwylwyr bydwagedd yn cael eu penodi gan yr awdurdod goruchwylwyr lleol ac maent yn atebol iddo am bob mater sy'n gysylltiedig â'r oruchwyliaeth statudol ar fydwagedd. Rhaid i'r awdurdod goruchwylwyr lleol:
  - 1.1 Cyhoeddi polisi sy'n nodi ei feini prawf a'i weithdrefnau ar gyfer penodi unrhyw oruchwylwr bydwagedd newydd yn ei ardal.
  - 1.2 Cynnal rhestr gyfoes o'r goruchwylwyr bydwagedd yn ei ardal.
  - 1.3 Sicrhau y darperir o leiaf chwe awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus fesul blwyddyn o ymarfer.
- 2 Er mwyn cael ei phenodi am y tro cyntaf yn oruchwylwr bydwagedd, rhaid i fydwraig:
  - 2.1 Meddu ar o leiaf dair blynedd o brofiad yn fydwraig sy'n ymarfer. Rhaid i o leiaf un o'r blynyddoedd hynny fod yn y cyfnod o ddwy flynedd yn syth cyn y dyddiad penodi cyntaf.
- 3 Rhaid iddi hefyd fod naill ai:
  - 3.1 Wedi cwblhau'n llwyddiannus raglen addysg gymeradwy ar gyfer paratoi goruchwylwr bydwagedd yn y cyfnod o dair blynedd yn syth cyn y dyddiad penodi cyntaf; neu
  - 3.2 Pan fo mwy na thair blynedd, ond llai na phum mlynedd, wedi mynd heibio ers iddi gwblhau'n llwyddiannus raglen addysg gymeradwy ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwagedd, wedi cydymffurfio â'r gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus i oruchwylwyr bydwagedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.3.
- 4 Yn achos unrhyw benodiad dilynol yn oruchwylwr bydwagedd, rhaid iddi fod yn fydwraig sy'n ymarfer a:
  - 4.1 Bod wedi ymarfer yn oruchwylwr bydwagedd neu'n swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwylwyr lleol yn y cyfnod o dair blynedd yn syth cyn y dyddiad penodi dilynol; neu
  - 4.2 Pan nad yw ond wedi ymarfer yn oruchwylwr bydwagedd neu'n swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwylwyr lleol mewn cyfnod sy'n fwy na thair blynedd ond yn llai na phum mlynedd yn syth cyn y dyddiad penodi dilynol, fod wedi llwyddo hefyd i gydymffurfio â'r gofynion datblygiad proffesiynol parhaus i oruchwylwyr bydwagedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.3.
- 5 Rhaid i oruchwylwr bydwagedd allu bodloni'r cymwyseddau a nodir mewn Safonau ynghylch paratoi goruchwylwyr bydwagedd a'u hymarfer (NMC 2006).

### Disgwyliad yr AGLI

Mae Goruchwylwyr Bydwagedd sy'n Fyfyrrwyr yn cael eu recriwtio a'u cynorthwyo'n ddigonol yn dilyn proses lwyddiannus o gwblhau'r cwrs Paratoi Goruchwylwyr Bydwagedd (POSOM).

Rhaid i bob Goruchwylwr Bydwagedd ddangos ei fod yn gallu cyflawni'r cymwyseddau a nodir yn Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012)

### Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio

Mae'r broses o enwebu, dewis a phenodi Goruchwylwyr Bydwagedd yn mynd rhagddi yn ôl canllawiau'r AGLI.

Mae'r niferoedd cywir o Oruchwylwyr Bydwagedd yn cael eu penodi y tu mewn i'r bwrdd iechyd.

Mae'r Goruchwylwr Bydwagedd wedi cwblhau'r gweithgareddau gofynnol o ran

<p>ynghylch Paratoi Goruchwylwyr Bydwagedd.</p> <p>Mae rhestr gyfoes o Oruchwylwyr Bydwagedd ar gael ar gronfa ddata'r AGLI a bydd yn cael ei chyflwyno yn adroddiad archwilio'r AGLI.</p>	<p>Aiaddilysu/y Fframwaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus.</p> <p>Mae'r Goruchwylwr Bydwagedd yn sicrhau bod Swyddog Bydwagedd yr AGLI wedi cael gwybod am bob achos o ganiatáu absenoldeb o'r swydd a phob ymddiswyddiad. Pan gynhaliwyd yr archwiliad, roedd y rhestr o Oruchwylwyr Bydwagedd penodedig yn gywir ar gronfa ddata'r AGLI.</p> <p>Mae'r Goruchwylwr Bydwagedd wedi hunanasesu ei chymhwysedd ar gyfer cyflawni'r swydd ac mae ganddi gynllun i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion dysgu.</p>
<p><b>Arferion i'w nodi</b></p>	
<p><b>Mae holl ddatblygiad proffesiynol parhaus Goruchwylwyr Bydwagedd wedi'i nodi ar gronfa ddata'r AGLI ac mae uwchlaw'r safon sylfaenol ofynnol, sef 6 awr y flwyddyn</b></p> <p><b>Er y ffaith bod ardal ddaearyddol enfawr, mae'r Goruchwylwr Bydwagedd wedi sicrhau ei bod wedi cynnal ei hygyrchedd a'i hamlygrwydd ar draws y bwrdd iechyd</b></p>	
<p><b>Meysydd i'w gwella</b></p>	
<p><b>Sicrhau bod y Goruchwylwr Bydwagedd sy'n dod i'r swydd yn cynnal amlygrwydd a hygyrchedd</b></p>	
<p><b>Canlyniad</b></p>	
<p><b>Rheol 8 wedi'i chyflawni</b></p>	

## Rheol 9 Cyfrifoldebau'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ynghylch Goruchwylio Bydwagedd

### Rheol

Rhaid i awdurdod goruchwylio lleol sicrhau:

- bod pob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal â goruchwyliwr bydwagedd a enwir o blith y goruchwylwyr bydwagedd a benodwyd gan yr awdurdod goruchwylio lleol yng nghyswllt ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol;
- o leiaf unwaith y flwyddyn, y bydd goruchwyliwr bydwagedd yn cwrdd â phob bydwraig y mae'n oruchwyliwr bydwagedd a enwir iddi er mwyn adolygu ymarfer y fydwraig ac i ganfod ei hanghenion o ran addysg;
- bod pob goruchwyliwr bydwagedd yn ei ardal yn cynnal cofnodion o'i gweithgareddau goruchwylio, gan gynnwys unrhyw gyfarfod â bydwraig; a
- bod pob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal â mynediad 24 awr at oruchwyliwr bydwagedd p'un ai'r goruchwyliwr a enwir sydd gan y fydwraig yw hwnnw neu oruchwyliwr bydwagedd arall.

### Safonau'r AGLI

1 Rhaid i awdurdod goruchwylio lleol:

1.1 Sicrhau bod fframwaith lleol yn bodoli i ddarparu:

1.1.1 Goruchwyliaeth deg ac effeithiol ar gyfer pob bydwraig sy'n gweithio yn yr awdurdod goruchwylio lleol.

1.1.2 Cymorth ar gyfer myfyriwr-fydwagedd i'w galluogi i gael mynediad at oruchwyliwr bydwagedd.

1.2 Sicrhau bod y gymhareb o ran nifer y bydwagedd i bob goruchwyliwr bydwagedd yn adlewyrchu'r amgylchiadau a'r angen lleol ac nad yw'n peryglu diogelwch menywod. Fel rheol, ni fydd y gymhareb hon uwchlaw 1:15.

1.3 Gosod strategaeth i alluogi cyfathrebu effeithiol rhwng pob goruchwyliwr bydwagedd. Dylai hyn gynnwys cyfathrebu â goruchwylwyr mewn awdurdodau goruchwylio lleol eraill.

1.4 Monitro a sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu i alluogi goruchwylwyr bydwagedd i gyflawni eu swydd.

1.5 Cyhoeddi canllawiau i sicrhau cysondeb yn y dull a fabwysiadir gan oruchwylwyr bydwagedd yn ei ardal ar gyfer ymdrin â'r adolygiad blynyddol o ymarfer bydwraig. Rhaid i'r rhain gynnwys bod y goruchwyliwr yn ymgymryd ag asesiad o'r graddau y mae'r fydwraig yn cydymffurfio â'r gofynion i gynnal cofrestriad bydwreigiaeth.

1.6 Sicrhau bod systemau lleol ar gael i alluogi goruchwylwyr bydwagedd i gynnal cofnodion ynghylch eu holl weithgareddau goruchwylio, ac i gadw'r cofnodion hynny'n ddiogel.

### Disgwyliadau'r AGLI

Mae fframwaith lleol ynghylch goruchwylio.

Rhaid i bob myfyriwr-fydwraig gael mynediad at Oruchwyliwr Bydwagedd a dylai fod systemau lleol at y diben hwn.

Mae'r gymhareb Goruchwylwyr Bydwagedd yn dal i fod o fewn terfyn y gymhareb a argymhellir, sef un Goruchwyliwr Bydwagedd i bob 15 o fydwagedd.

Dylai adnoddau'r gwaith goruchwylio gael eu hadolygu ym mhob cyfarfod Goruchwylwyr Bydwagedd.

### Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio

Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd ar gael ac yn hygyrch bob awr o'r dydd drwy gyfrwng system ar-alwad Cymru gyfan.

Mae'r rhif ar-alwad 24 awr ar gael i'w weld yn yr ardaloedd clinigol ac mae gwybodaeth ar gael i gynorthwyo bydwagedd i wneud penderfyniadau wrth ystyried galw Goruchwyliwr Bydwagedd.

Mae'r manylion ynglŷn â sut i gysylltu â Goruchwyliwr Bydwagedd ar gael ar wefan y bwrdd iechyd.

Roedd y Goruchwyliwr Bydwagedd yn



Mae adolygiadau blynyddol wedi'u seilio ar bolisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU.

Mae systemau lleol wedi'u datblygu i sicrhau bod Goruchwyliwr Bydwagedd â systemau ar gyfer cadw unrhyw gofnodion goruchwylio'n ddiogel.

gallu dangos tystiolaeth o fod yn bresennol yn 75% o gyfarfodydd lleol Goruchwyliwr Bydwagedd.

Mae gan bob bydwaig oruchwyliwr bydwagedd a enwir, ac roedd cronfa ddata'r AGLI yn dangos tystiolaeth o hynny.

Mae gan fyfyrwr-fydwragedd Oruchwyliwr Bydwagedd a enwir sydd wedi'i neilltuo iddynt a'u carfan ac mae'r Goruchwyliwr Bydwagedd yn rhan o'r broses o'u haddysgu ynghylch goruchwyliaeth yn y maes clinigol. Mae'r brifysgol hefyd yn addysgu'r myfyrwr ynghylch goruchwyliaeth fel rhan o'u cyfadran academaidd. Mae myfyrwr-fydwragedd yn gwybod sut i gysylltu â'u Goruchwyliwr Bydwagedd eu hunain a'r Goruchwyliwr Bydwagedd ar-alwad os oes angen.

Mae'r gymhareb gyffredinol o ran nifer y bydwagedd i bob Goruchwyliwr Bydwagedd yn cyfateb i 1:11, sydd o fewn terfyn y gymhareb a argymhellir, sef 1:15.

Ceir llwythi achosion cyfartal ledled Cymru.

Mae pob adolygiad blynyddol yn cael ei gynnal yn unol â Pholisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU, a chafodd hyn ei gadarnhau drwy gyfrwng hapwiriad ar gronfa ddata'r AGLI.

Mae cofnodion goruchwylio'n cael eu cadw'n ddiogel ar gronfa ddata'r AGLI neu ar system iShare Llywodraeth Cymru. Mae copïau papur yn cael eu cadw'n ddiogel mewn swyddfa, o dan glo.

**Arferion i'w nodi**



**Mae proses gadarn ar gyfer rheoli'r adolygiad goruchwylio blynyddol (ASR) a goruchwyliaeth grŵp mewn ardal ddaearyddol eang**

**Cydymffurfir yn llwyr o ran adolygiadau goruchwylio blynyddol**

### **Meysydd i'w gwella**

**Gwybodaeth brin a oedd ar gael ar wefan y bwrdd iechyd i fenywod ynghylch pryd i gysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd**

**Nid oedd dim dolen ar y wefan i'r daflen Cymru gyfan ynghylch cyflawni ("Delivering for You")**

**Codi ymwybyddiaeth yr holl switsfyrddau o fewn ysbytai cymunedol o'r rhif ar-alwad**

### **Canlyniad**

**Rheol 9 wedi'i chyflawni**

## Rheol 10 Cyhoeddi Gweithdrefnau Awdurdodau Goruchwylio Lleol

### Rheol

Rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol gyhoeddi ei weithdrefn ar gyfer:

- (a) rhoi gwybod am bob digwyddiad niweidiol sy'n gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth neu honiadau o ffitrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn bydwagedd sy'n ymarfer yn ei ardal;
- (b) ymchwilio i unrhyw adroddiadau a wneir o dan baragraff (a); ac
- (c) ymdrin â chwynion neu honiadau o ffitrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn ei swyddog bydwreigiaeth neu oruchwylwyr bydwagedd yn ei ardal.

### Rhoi gwybod am ddigwyddiadau niweidiol, cwynion neu bryderon sy'n gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth

#### Safon yr AGLI

1 Rhaid i awdurdodau goruchwylio lleol ddatblygu system gyda chyflogwyr bydwagedd a bydwagedd hunangyflogedig i sicrhau bod swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwylio lleol yn cael ei hysbysu am bob digwyddiad niweidiol, cwyn neu bryder sy'n gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth neu honiadau o ffitrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn bydwraig.

### Ymchwiliadau goruchwylio

#### Safon yr AGLI

1 Rhaid i awdurdodau goruchwylio lleol gyhoeddi canllawiau ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau, cwynion neu bryderon sy'n gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth neu honiadau o ffitrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn bydwraig. Rhaid i'r canllawiau hyn:

- 1.1 Darparu ar gyfer dull agored, tryloyw, teg ac amserol, sy'n dangos prosesau gwneud penderfyniadau cadarn sy'n gwrthsefyll gwaith craffu allanol.
- 1.2 Rhoi cyfle i'r fydwraig gymryd rhan yn yr ymchwiliad.
- 1.3 Nodi'r camau gofynnol a'r canlyniadau posibl yn dilyn ymchwiliad.
- 1.4 Darparu ar gyfer proses apeliadau.

### Disgwyliad yr AGLI

Dylai fod cofnod o bob ymchwiliad a gynhaliwyd, ei ganlyniad a'r amser a gymerwyd i'w gwblhau. Dylai fod tystiolaeth o waith adolygu rheolaidd o'r ymchwiliadau ac unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg o ran ymarfer bydwreigiaeth.

Dylai argymhellion gwasanaeth sy'n datblygu o ymchwiliadau gael eu huwchgyfeirio at y cyflogwr a'u monitro gan y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd.

Dylai fod rhyngwyneb effeithiol, dryloyw, sy'n cael ei rhannu, rhwng goruchwyliaeth a llywodraethu clinigol.

Mae'r tîm goruchwylio yn gwybod am bob digwyddiad a chwyn sy'n tynnu sylw at bryderon am yr ymarfer bydwreigiaeth a geir yn y gwasanaeth. Rhoddir gwybod i'r AGLI am Ddigwyddiadau Difrifol. Mae tystiolaeth o waith adolygu systematig o ymarfer bydwreigiaeth pan fo'n ofynnol.

### Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio

Mae'r Goruchwylwr Bydwagedd wedi llwyddo i gydymffurfio â mwyafrif yr agweddau, ar wahân i brydlondeb.

Cynhelir ymchwiliadau goruchwylio mewn byrddau iechyd allanol i leihau tuedd ac i uchafu'r cymorth lleol i'r fydwraig. Mae'r Goruchwylwr Bydwagedd wedi llwyddo i gydymffurfio â mwyafrif yr agweddau ar wahân i brydlondeb.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliodd y Goruchwylwr Bydwagedd 1 ymchwiliad, a oedd yn cynnwys 2 fydwraig i gyd. Cafodd yr ymchwiliad hwn ei gwblhau y tu hwnt i'r amserlen 60 diwrnod a argymhellir.

Mae system gadarn ar gyfer dilyn ymchwiliadau y mae pob Goruchwylwr Bydwagedd yn ei defnyddio'n gyson.

Caiff canfyddiadau ymchwiliadau eu

Dylai fod rhyngwyneb effeithiol, dryloyw, sy'n cael ei rhannu, rhwng goruchwyliaeth a llywodraethu clinigol.

trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd fel y gellir canfod tueddiadau a gweithredu unrhyw wersi drwy newid arferion a chynllunio camau.

Caiff y rheolwyr eu holi ynghylch unrhyw argymhellion sefydliadol sy'n deillio o ymchwiliadau goruchwyllo.

Mae'r Goruchwylwr Bydwragedd yn cyfrannu at brosesau llywodraethu ac mae'n mynd i'r cyfarfodydd sir yn rheolaidd, pan fo pob digwyddiad niweidiol yn cael ei drafod. Fodd bynnag, nid yw'r Goruchwylwr Bydwragedd yn adolygu adroddiadau Datix ei hun ond mae'n dibynnu ar y tîm llywodraethu i atgyfeirio achosion y mae angen eu hadolygu.

Mae system effeithiol er mwyn i'r Goruchwylwr Bydwragedd gael ei hysbysu am bob digwyddiad niweidiol ym maes mamolaeth, sy'n golygu y gellir adolygu'n brydlon, cwblhau 'dull gwneud penderfyniadau' pan nodir hynny, a dechrau ymchwiliad goruchwyllo. Mae'r AGLI yn cymryd rhan yn y broses hon, mae'n goruchwyllo adroddiadau ymchwilio, ac mae'n cytuno ar unrhyw argymhellion a wneir ar gyfer bydwragedd o ganlyniad i ymchwiliad goruchwyllo.

### Arferion i'w nodi

**Bu'r Goruchwylwr Bydwragedd yn bresennol yn rheolaidd mewn cyfarfodydd sir ar draws y bwrdd iechyd**

**Mae'r dogfennau ymchwilio yn cael eu cadw'n ddiogel ar systemau Llywodraeth Cymru**

### Canlyniad

#### Rheol 10 – Mae angen gwella

**Gwella prydlondeb ymchwiliadau yn unol â chanllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ynghylch amserlen 60 diwrnod, ond cydnabyddir bod hwn yn**

**fater sy'n berthnasol i Gymru gyfan**

**Dylai'r Goruchwyliwr Bydwagedd allu cael gafael ar adroddiadau Datix fel y  
gellir adolygu digwyddiadau unrhyw bryd**

## 8 Canfyddiadau'r Adolygydd Lleyg

Bu'r adolygydd lleyg yn chwarae rhan lawn yn yr archwiliad, gan gynnwys:

- Trafod â defnyddwyr y gwasanaeth ar un safle ynghylch eu bodlonrwydd â'r gwasanaeth a'u hymwybyddiaeth o Oruchwylwyr Bydwagedd
- Arsylwi ar yr amgylchedd clinigol cyffredinol, ac asesu amlygrwydd goruchwyliaeth mewn ardaloedd cyhoeddus
- Ymgymryd â gwaith ymchwil cyn archwilio o ran y wybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd ynglŷn â goruchwyliaeth ac ymwybyddiaeth y switsfwrdd o'r rhif ar-alwad Cymru gyfan
- Adolygiad o arolwg "Bump Talk" a gynhaliwyd gan gadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth, nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod archwilio ar y diwrnod
- Gweithio gyda Goruchwylwr Bydwagedd allanol i gynnal cyfweiliadau â:
  - Defnyddiwr gwasanaeth
  - Bydwagedd – ystod o brofiad
  - Goruchwylwyr Bydwagedd.

Bu'r adolygydd lleyg yn chwarae rhan lawn yn yr ymweliad archwilio, gan gynnwys:

- Cyfweld bydwagedd ynghylch eu profiadau o oruchwyliaeth
- Cyfweld y Goruchwylwr Bydwagedd sy'n gadael a'r unigolyn a fydd yn llenwi ei swydd ynglŷn â'u rolau
- Cwrdd â defnyddiwr y gwasanaeth a gofyn iddi am ei phrofiadau, a darllen drwy'r adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a ddarparwyd gan gadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth
- Ymweld â chanolfan enedigaethau ac arsylwi ar yr amgylchedd clinigol gan weld a oedd gwybodaeth ddigonol ynglŷn â goruchwyliaeth wedi'i harddangos i ddefnyddwyr y gwasanaeth
- Ymgymryd â gwaith ymchwil cyn yr archwiliad i hygyrchedd Goruchwylwyr Bydwagedd drwy wirio'r wybodaeth a roddir ar wefan y bwrdd iechyd a galw ysbytai yn y bwrdd iechyd i gael y rhif ar-alwad 24 awr.

### Gwiriadau hygyrchedd cyn archwilio

Cyn i'r ymweliad archwilio gael ei gynnal, bu'r adolygydd lleyg yn arsylwi ar hygyrchedd a chywirdeb y wybodaeth am Oruchwylwyr Bydwagedd ar wefan y bwrdd iechyd ac yn canfod a oedd y rhif ar-alwad cywir ar gael gan switsfyrddau'r bwrdd iechyd. Mae gwybodaeth ar gael am rôl y Goruchwylwr Bydwagedd ar wefan bwrdd iechyd Powys, yn yr adran ynghylch gwasanaethau mamolaeth. Dangosir y rhif ar-alwad cywir ac mae'r disgrifiad o rôl y Goruchwylwr Bydwagedd yn gywir; fodd bynnag, mae'n canolbwyntio'n bennaf ar rôl y Goruchwylwr Bydwagedd mewn cysylltiad â bydwagedd. Teimlodd yr adolygydd lleyg y gallai fod mwy o wybodaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth ynglŷn â sut y gallai'r Goruchwylwr Bydwagedd eu cynorthwyo nhw, ynghyd ag enghreifftiau o achosion pan allent ddymuno cysylltu â Goruchwylwr Bydwagedd. Ni allai'r adolygydd lleyg ddod o hyd i unrhyw ddolen i'r daflen ynghylch cyflawni ("Delivering for You") na safle AGLI AGIC ar y wefan pan chwiliodd amdanynt.

Gwnaeth yr adolygydd lleyg alwad cyn archwilio i'r switsfwrdd yn Ysbyty Aberhonddu a gofynnodd am rif ar-alwad 24 awr y Goruchwyliwr Bydwragedd. Rhoddwyd y rhif cywir yn syth. Galwodd yr adolygydd lleyg Ysbyty Trefyclo hefyd i ofyn am y rhif ar-alwad ond dywedwyd y dylai ffonio Ysbyty Coffa Aberhonddu gan nad oedd gan weithredwr y switsfwrdd y rhif hwnnw.

### Adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth

Cyn i'r ymweliad archwilio fynd rhagddo, cynhaliodd cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth Powys arolwg drwy gyfrwng ei dudalen "Bump Talk" ar Facebook, a ofynnodd yr hyn a ganlyn i ddefnyddwyr y gwasanaeth: a fuont yn fodlon ar y gofal bydweigiaeth yr oeddent wedi'i gael ym Mhowys; a oedd unrhyw beth yr oeddent yn arbennig o fodlon yn ei gylch neu yr oeddent yn credu y gellid ei wella; a gawsant unrhyw ran o'u gofal y tu allan i Bowys; ac a oeddent yn gwybod at bwy i droi i gael cymorth os oedd ganddynt broblem gyda'u bydwaig. Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr hefyd a oeddent wedi clywed am Oruchwylwyr Bydwragedd. Roedd 51 o ymatebwyr a dywedodd 92 y cant ohonynt eu bod yn fodlon ar y gofal yr oeddent wedi'i gael. Cafodd tua 18 o fydwragedd eu henwi'n benodol a gwnaed rhai sylwadau cadarnhaol iawn, gan gynnwys: "Darparodd fy mydwraig ofal rhagorol drwy gydol fy nau feichiogrwydd. Bu'n tywys fi a'm partner ar deithiau arbennig y byddwn yn ddiolchgar amdanynt am byth." Nododd un arall fod ei bydwaig yn "wych" gan gyfeirio at ei "chyngor ac ymagwedd ofalgar, gwybodus, ac ymarferol". Dywedodd 22 y cant o'r ymatebwyr na fyddai modd gwneud dim yn well. Bu un yn canmol y cymorth a gafodd ar gyfer ei hiselder ôl-enedigol, yn arbennig yr apwyntiad gwrando a'r apwyntiad dilynol. Dywedodd fod y fydwaig yn "rhagorol" a'i bod wedi'i helpu i fod yn fwy ymwybodol o'i hiechyd meddwl. Rhoddodd y rhai a oedd yn anfodlon ar eu gofal ystod o resymau, gan gynnwys: peidio â gallu cael gafael ar gyfarpar uwchsain yn y sir; yr angen i ysbytai gyfathrebu'n well â'i gilydd; gweld llawer o fydwragedd yn ystod ei beichiogrwydd; a chanfod bod ei ffeiliau yn Nhrefyclo er ei bod yn Llandrindod yn ystod yr esgoriad, oherwydd bod y fydwaig ddiwethaf a welodd yn gweithio ar ran rhywun arall yn ystod y gwyliau. Pwysleisiwyd mewn llawer o sylwadau rhwystredigaeth dros orfod mynd y tu allan i'r sir i gael gwasanaethau mamolaeth penodol neu beidio â chael cymorth digonol yn lleol. Cwynodd rhai hefyd am ddiffyg parhad gofal, a gwelodd un fwy na phedair bydwaig yn ystod ei beichiogrwydd oherwydd swydd. Roedd dau o'r sylwadau yn ymwneud â'r cyfleusterau yng nghanolfan enedigaethau'r Drenewydd yn benodol. Dywedodd un o'r ymatebwyr fod angen uwchraddio'r cyfleusterau, ac roedd y llall yn galw am bwl genedigaethau dŵr sydd wedi'i gysylltu â'r plymwaith, yn hytrach nag un y mae'n rhaid ei lenwi.

Nid oedd modd cyfweld mwy nag un defnyddiwr gwasanaeth yn ystod yr ymweliad archwilio ei hun. Fodd bynnag, roedd y fenyw a fu'n siarad â'r adolygydd lleyg yn fodlon iawn ar y gofal yr oedd wedi'i gael hyd yma. Teimlai ei bod wedi cael gofal da a bod ei dewisiadau a'i gofal wedi'u hesbonio iddi'n glir. Nid oedd wedi clywed am oruchwyliaeth pan ofynnwyd iddi a oedd yn deall rôl y Goruchwyliwr Bydwragedd.

### Sylwadau am yr amgylchedd clinigol

Ymwelodd yr adolygydd lleyg â'r ganolfan enedigaethau yn Ysbyty Coffa Aberhonddu. Roedd yr ardal aros yn lân ac yn cynnig croeso, gan gynnwys digon o dafleuni, a phosteri gwybodaeth ar y waliau. Mae ystafell dawel wrth ochr y brif ardal

aros, lle y gellir trafod canlyniadau sganio yn breifat. Roedd ystafell y pwll a'r ystafell gyfagos ar gyfer aros dros nos yn lân ac nid oeddent yn or-glinigol, gan gynnwys nodweddion cartrefol i greu amgylchedd mwy clyd.

Roedd gwybodaeth am Oruchwylwyr Bydwagedd wedi'i harddangos yn glir ar y wal. Roedd y wybodaeth a roddwyd yn gywir, gan gynnwys disgrifiad o rôl y Goruchwylwr Bydwagedd a phryd y gellid cysylltu â hi. Roedd y llawlyfr Cymru gyfan ynghylch cyflawni ("Delivering for You") wedi'i gysylltu â'r hysbysfwrdd. Roedd y rhif ar-alwad Cymru gyfan cywir wedi'i arddangos.

### Cyfweliadau â bydwagedd yn ystod yr ymweliad archwilio

Bu'r adolygydd lleyg yn cyfweld tair bydwraig, yr oedd un ohonynt yn uwch-fydwraig ym Mand Saith. Bu pob un o'r tair yn destun adolygiad goruchwyllo blynyddol yn y 12 mis diwethaf mewn sesiynau goruchwyliaeth grŵp.

Roeddent yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'u profiadau o gymryd rhan mewn goruchwyliaeth grŵp, gan ddweud ei bod wedi cynnig awyrgylch cefnogol lle nad oedd neb yn barnu, lle yr oeddent i gyd yn rhannu eu profiadau. Roeddent hefyd yn gwerthfawrogi cymryd rhan mewn sesiynau gyda bydwagedd a oedd â lefelau gwahanol o brofiad y gallent fanteisio arno. Nid oedd dim o'r bydwagedd wedi defnyddio rhif ar-alwad Cymru gyfan i gysylltu â'r Goruchwylwr Bydwagedd; fodd bynnag, gwnaethant ddweud bod y ffaith bod y rhif ar gael yn tawelu eu meddwl. Roedd gan y bydwagedd rai pryderon am y ffaith na fydd goruchwyliaeth yn swyddogaeth statudol mwyach o dan y cynlluniau ynglŷn â'r model a arweinir gan y cyflogwr. Dywedodd un ei bod yn hoffi'r ffaith bod Goruchwylwyr Bydwagedd yn fydwragedd eu hunain a'u bod yn deall y materion y mae bydwagedd yn eu hwynebu. Dywedodd y byddai'r rheolwyr yn meddwl am ffeithiau a ffigurau yn bennaf a pholisi'r bwrdd iechyd, a'i bod yn bosibl nad ydynt yn gweld y darlun mwy o reidrwydd, nac yn deall y sefyllfaoedd y mae bydwagedd yn eu hwynebu. Fodd bynnag, dywedodd un fydwraig ei bod o'r farn y byddai model o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr yn gam i'r cyfeiriad cywir. Dywedodd nad oedd o'r farn y dylai bydwagedd fod yn destun dwy broses ymchwilio ar wahân, a drefnir gan y Goruchwylwr Bydwagedd ac wedyn yr AGLI, fel y gwneir o dan y system bresennol, ac y dylai goruchwyliaeth fod yn rôl fwy cefnogol ac adferol.

Cytunodd pob un o'r tair y dylai pa fodel newydd bynnag a weithredir fod yn gyson ar draws byrddau iechyd y DU.

Bu'r tair bydwraig yn canmol y Goruchwylwr Bydwagedd sydd newydd gwblhau ei chwe mis yn y swydd ym Mhowys, gan nodi ei bod yn "wych, nid yw'n barnu, ac mae'n amlwg". Roeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith ei bod wedi ymweld â phob un o'r canolfannau genedigaethau'n rheolaidd a'i bod yn hawdd cysylltu â hi drwy ei ffôn symudol a'i ffôn yn y cartref. Gwnaethant ddweud iddynt gael budd mawr o'r diwrnodau astudio yr oedd wedi'u trefnu i'r bydwagedd.

### Cyfweliad â Goruchwylwyr Bydwagedd

Cafodd y Goruchwylwr Bydwagedd sy'n gadael y swydd (GB A) a'r Goruchwylwr Bydwagedd newydd (GB B) a oedd wedi dod i'r swydd ym Mhowys yn ddiweddar eu cyfweld gan yr adolygydd lleyg.

Gan fod yr archwiliad yn canolbwyntio ar yr hyn a gyflawnwyd yn y chwe mis blaenorol, y Goruchwylwr Bydwagedd sy'n gadael a ymatebodd i'r cwestiynau gan mwyaf. Disgrifiodd GB A y modd y mae wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r bydwagedd ynglŷn â'u hadolygiadau goruchwyllo blynyddol, gan anfon e-bost at bob



un bob 30 diwrnod ac anfon gwahoddiadau i sesiynau goruchwyliaeth grŵp bob pedair i chwe wythnos. Mae wedi arddangos poster i ynghylch y sesiwn goruchwyliaeth grŵp yn y canolfannau genedigaethau a bu o leiaf chwe chyfranogwr ym mhob sesiwn goruchwyliaeth grŵp. Dywedodd y Goruchwylwr Bydwagedd ei bod yn teimlo bod y sesiynau goruchwyliaeth grŵp wedi bod yn fuddiol iawn a bod y bydwagedd wedi rhannu eu profiadau gan fyfyrwyr yn eu cylch.

Er mwyn helpu i leihau risgiau ac i gynorthwyo'r bydwagedd gyda dysgu yn sgil ymchwiliadau, bu'n bresennol mewn cyfarfodydd risg glinigol ac mae wedi sicrhau bod gwersi'n cael eu trosglwyddo i'w tîm.

O ran y broses o symud tuag at fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr, dywedodd y Goruchwylwr Bydwagedd eu bod o'r farn y byddai goruchwyliaeth ar ei ffurf bresennol yn cael ei cholli oherwydd teimlent eu bod yn "glust ac yn glustog" i'r bydwagedd. Yn ôl GB A, byddai llwyddiant y model newydd yn dibynnu'n fawr ar ymrwymiad pennaeth bydwreigiaeth i oruchwyliaeth a ph'un a oedd am fwrw ymlaen â hynny.

Yn gyffredinol, roedd yr adolygydd llewyg yn teimlo bod Powys yn dangos enghraifft o oruchwyliaeth lwyddiannus iawn. Roedd y bydwagedd wedi meithrin perthynas waith gref â'u Goruchwylwr Bydwagedd gan deimlo'u bod yn cael eu cynorthwyo ganddi. Roedd wedi llwyddo i fod yn hygyrch i'r tîm, er gwaethaf yr heriau daearyddol a gyflwynir drwy weithio mewn ardal mor fawr â Phowys. Cafwyd adborth cadarnhaol am yr oruchwyliaeth grŵp a'r ffaith bod hynny'n darparu awyrgylch lle y gallai bydwagedd rannu eu profiadau â'i gilydd, a dysgu ganddynt. Mae'n ddealladwy iawn fod pryder ynglŷn â'r model sydd ar y gweill o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr, a bod dymuniad i gadw, drwy ryw ddull, yr elfennau cynorthwyol y gall Goruchwylwr Bydwagedd eu darparu i bydwagedd.



## 9 Crynodeb o'r Argymhellion

### Cydymffurfio â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Yn anffodus, nid oedd y Cyfarwyddwr Nyrsio yn gallu bod yn bresennol yn yr archwiliad ond roedd yn gallu cyfrannu at y broses archwilio drwy e-bost gan ddefnyddio'r holiadur archwilio a bennwyd o flaen llaw. Drwy hwnnw, teimlai wedi'i sicrhau bod yr AGLI yn gallu cyflawni ei swyddogaeth yn y bwrdd iechyd a bod yr AGLI, drwy feithrin perthnasoedd effeithiol a deialog heriol, yn gallu cyflawni ei rôl o ddiogelu menywod a babanod. Roedd y Cyfarwyddwr Nyrsio yn teimlo wedi'i sicrhau bod yr AGLI yn gallu crybwyll ac uwchgyfeirio pryderon yn effeithiol ac yn briodol, a theimlai fod y model goruchwyllo presennol yn cynorthwyo bydwagedd drwy gyfrwng adolygiadau gan gymheiriaid a goruchwyliaeth grŵp. O ganlyniad, hoffai weld y model cymorth hwn yn cael ei ddefnyddio ar draws y bwrdd iechyd. Mae'n hyderus ynglŷn â'r cymorth a ddarperir gan Bennaeth Bydwreigiaeth i oruchwyliaeth ac mae'n awyddus i sicrhau bod y cynlluniau ar gyfer trosglwyddo, ar ôl y statud, yn cael eu cyfleu'n dda, yn arbennig i fydwragedd.

Mynegodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch y bwrdd iechyd ei barn fod y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd mewn sefyllfa dda o ran y swyddogaeth o grybwyll ac uwchgyfeirio pryderon yn briodol. Cydnabuwyd y gallai heriau'r ardal ddaearyddol fawr amharu ar amlygrwydd y Goruchwylwr Bydwagedd, ond teimlodd fod y drefn o adolygu achosion yn allanol yn ystod y broses ymchwilio yn gallu darparu sicrwydd ychwanegol i'r bwrdd iechyd. Roedd yn awyddus i hynny barhau ar ôl i'r oruchwyliaeth statudol ddod i ben. Teimlwyd bod y broses ymchwilio bresennol yn gadarn iawn, a mynegodd bryder y gall y lefel uwch o dryloywder a gwrthrychedd a geir yn y broses ymchwilio bresennol gael ei cholli ar ôl i'r oruchwyliaeth statudol ddod i ben yn gynnar yn 2017. Fodd bynnag, gobeithiwyd y byddai prydlondeb presennol y broses ymchwilio yn gwella, ond roedd yn hyderus bod y Goruchwylwr Bydwagedd yn cyd-fynd yn dda â strwythur llywodraethu'r bwrdd iechyd ar hyn o bryd.

Roedd uwch-fydwraig arall o'r farn y bydd y ffaith bod y model goruchwyllo yn newid, sef i broses reoleiddio a arweinir gan y cyflogwr, yn sicrhau bod proses fwy prydlon gan fod amserlen bresennol y bwrdd iechyd ar gyfer cynnal ymchwiliadau yn llawer byrrach na'r amserlen oruchwyllo 60 diwrnod, sy'n gallu llesteirio prosesau adferol prydlon. Teimlodd yn hyderus iawn y byddai'r bwrdd iechyd yn gallu arwain unrhyw broses ymchwilio pan fo'r swyddogaeth statudol yn dod i ben a theimlodd y dylai unrhyw fodel newydd ymgorffori elfen o ddatblygu ymarfer ochr yn ochr â rôl gefnogol i fydwragedd.

Pan fod Pennaeth Bydwreigiaeth yn absennol, eglurodd Rheolwr Cyfarwyddiaeth Menywod a Phlant ei bod yn hyderus bod yr AGLI yn gallu cyflawni ei swyddogaeth a bod ganddi ffydd yn y weithdrefn ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Teimlwyd bod y Goruchwylwr Bydwagedd wedi ymrwymo i'r swydd ac mae tystiolaeth glir fod y Goruchwylwr Bydwagedd yn cael ei gwerthfawrogi am ei hymdrechion o ran cynnal amlygrwydd a hygrychedd, yn ogystal â'i medrusrwydd wrth ddarparu cymorth ystyrion heb farnu. Dyma farn yr holl fydwragedd a

gyfrannodd ar ddiwrnod yr archwiliad. Roedd yn glir ei bod wedi cyfrannu at godi ymwybyddiaeth ynghylch ail-ddilysu ymysg bydwagedd a'i bod wedi gwneud pob ymdrech i fynd i gyfarfodydd mewn amrywiaeth o leoliadau er gwaethaf yr heriau daearyddol.

Gwnaeth adroddiad archwilio 2015–2016 yr argymhellion a ganlyn ar gyfer gwella:

- Datblygu cynllun gweithredu gydag uwch-fydwragedd i sicrhau bod yr adolygiad goruchwyllo blynyddol yn cael ei ddarparu mewn ffordd ystyrlon
- Dylai'r Goruchwylwr Bydwagedd a'r uwch-fydwragedd feithrin diwylliant o ddeall natur gydategol eu swyddi
- Dylai Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ystyried caniatáu i'r tîm Goruchwylwr Bydwagedd gael mynediad at system "Datix" er mwyn cael gweld digwyddiadau yn uniongyrchol i asesu a yw safon yr ymarfer bydwreigiaeth yn is na'r safon ddisgwyliedig
- Parhau i ddatblygu cysylltiadau agos â phroses ymchwilio Bwrdd Iechyd Addysgu Powys pan fo'n briodol, gan gynnwys adolygiadau o ddigwyddiadau. Bydd hyn yn cynorthwyo bydwagedd ac yn atal dyblygu prosesau a gwaith mewn partneriaeth â'r maes llywodraethu
- Gwella'r gallu i gael gafael ar Oruchwylwr Bydwagedd drwy switsfyrddau'r bwrdd iechyd
- Sicrhau ei bod yn haws i ddefnyddwyr y gwasanaeth gael gafael ar daflenni goruchwyliaeth.

Cydymffurfiwyd 100% o ran yr adolygiad goruchwyllo blynyddol, a theimlwyd bod y sesiynau goruchwyliaeth grŵp yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan yr holl fydwragedd a gyfrannodd, gan gynnwys yr uwch-fydwragedd, a oedd yn gwerthfawrogi'r cymorth yr oeddent wedi'i gael gan y Goruchwylwr Bydwagedd wrth gynnal trafodaethau myfyriol â bydwagedd a oedd yn ail-ddilysu. Er bod y gymhareb Goruchwylwr Bydwagedd yn cydymffurfio dros y 6 mis diwethaf, roedd nifer o'r bydwagedd yn teimlo, oherwydd y sefyllfa daearyddol, y dylid cynyddu'r gymhareb i sicrhau bod mynediad parhaus at Oruchwylwr Bydwagedd. Er hynny, teimlwyd yn gyffredinol y bu gwelliant enfawr o ran amlygrwydd y Goruchwylwr Bydwagedd ac roedd pob un o'r bydwagedd yn gwybod sut i gysylltu â hi os oedd angen, gan ddefnyddio rhif ei ffôn symudol neu rif ffôn ei chartref yn ogystal â'r rhif ar-alwad 24 awr.

Cafwyd canran bresenoldeb o 99.9% mewn hyfforddiant gorfodol yn y bwrdd iechyd, a theimlwyd bod y Goruchwylwr Bydwagedd yn gallu cynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu ymarfer bydwreigiaeth.

Roedd yn amlwg bod y Goruchwylwr Bydwagedd yn cyfrannu'n fawr at y prosesau llywodraethu ond nid oedd byth â mynediad at adroddiadau Datix. Roedd yn dibynnu ar y tîm llywodraethu i atgyfeirio digwyddiadau ati, er bod y Goruchwylwr Bydwagedd yn mynd i gyfarfodydd sir yn rheolaidd i drafod achosion unigol, ond gall hyn effeithio ar brydlondeb adolygiadau goruchwyllo.

Roedd gwaith yr adolygydd lleyg yn tynnu sylw unwaith eto at y ffaith nad oedd pob un o'r ysbytai lleol, ar wahân i Aberhonddu, yn gwybod manylion cyswllt y Goruchwylwr Bydwagedd ar-alwad 24 awr. Fodd bynnag, ers hynny, mae Pennaeth

Bydwreigiaeth wedi rhoi gwybod mai dim ond Ysbyty Aberhonddu sydd â switsfwrdd 24 awr. Nid oes gan yr ysbytai pellennig switsfwrdd ac mae pob galwad yn cael ei chyfeirio at Ysbyty Aberhonddu o'r wardiau cyffredinol sy'n derbyn. Ar ôl i'r alwad gael ei chyfeirio at switsfwrdd Ysbyty Aberhonddu, cafodd y galwr ei gyfeirio at y rhif ar-alwad ar unwaith.

Adolygwyd gwefan Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ac roedd yn darparu gwybodaeth i fydwragedd ynglŷn â chael gafael ar Oruchwyliwr Bydwragedd, ond gwybodaeth brin a ddarparwyd i fenywod ynghylch pryd y dylid cysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd. Nid oedd dim dolen i'r daflen Cymru gyfan ynghylch cyflawni ("Delivering for You") fel y cynghorwyd yn yr archwiliad blaenorol, er bod copi papur ar gael yn y ganolfan enedigaethau ar ddiwrnod yr archwiliad.

Bu rhywfaint o welliant yn gyffredinol, yn arbennig o ran amlygrwydd, er bod rhai meysydd y mae angen eu gwella o hyd.

Cafodd pob un o safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a gafodd eu harchwilio ei chyflawni ar wahân i'r safon ynghylch y broses ymchwilio, a hynny oherwydd prydlondeb yr un ymchwiliad a gynhaliwyd yn y cyfnod hwn. Roedd pryder i'w weld mewn cysylltiad â phrydlondeb yr ymchwiliad goruchwyllo, yn arbennig gan nad oedd yn cyd-fynd â chanllawiau llymach y bwrdd iechyd yn hyn o beth. Teimlwyd bod hyn yn cael effaith negyddol ar y broses adfer gan fod angen i fydwragedd aros am argymhellion yr ymchwiliad goruchwyllo. Mynegwyd y farn y gellid gwella'r cysylltiadau rhwng argymhellion ymchwiliad yr AGLI a'r bwrdd iechyd, er bod disgwyliad y gall hyn fod yn haws pan fydd y bwrdd iechyd yn rheoli'r ymchwiliadau, ar ôl i'r statud ddod i rym.

Mae tystiolaeth fod gan y Goruchwyliwr Bydwragedd berthynas dda â maes llywodraethu clinigol y bwrdd iechyd, wrth i ddigwyddiadau gael eu hadolygu'n rheolaidd yn y cyfarfodydd sir bob 6 mis y mae bydwragedd cymunedol ac uwch-reolwyr yn mynd iddynt.

Bu'r tîm archwilio yn siarad ag uwch-aelod o'r tîm bydwreigiaeth a deimlodd fod y berthynas â'r drefn oruchwyllo wedi gwella'n sylweddol dros y 6 mis diwethaf. Teimlwyd bod y Goruchwyliwr Bydwragedd mewn sefyllfa dda yn yr agenda Ansawdd a Diogelwch a bod prosesau cadarn iawn ar waith i ategu hynny. Gall hyn adlewyrchu'r ffaith bod y gymhareb gywir o ran Goruchwylwyr Bydwragedd ar waith bellach at y diben hwn.

## Ymarfer Bydwreigiaeth

Yn ystod yr ymweliad archwilio, bu modd i'r adolygydd lleyg siarad ag un defnyddiwr gwasanaeth a oedd yn canmol y gofal a gafodd yn fawr, er nad oedd yn gwybod am Oruchwylwyr Bydwragedd.

Ni allai Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth fod yn bresennol yn yr archwiliad ond roedd yn gallu darparu copi o arolwg a gynhaliwyd ganddi.

Mae'r Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth yn gweithredu'n sefydliad rhithwir drwy dudalen Facebook, ac felly nid oes dim cyswllt uniongyrchol rhwng y

Goruchwyliwr Bydwragedd a'r pwyllgor. Fodd bynnag, awgrymodd arolwg diweddar a gynhaliwyd gan y pwyllgor fod 35% (n=18) o'r ymatebwyr wedi clywed am Oruchwylwyr Bydwragedd, sy'n well na'r sefyllfa yn yr archwiliad blaenorol, pan awgrymodd Cadeirydd y Pwyllgor mai gwybodaeth brin a oedd gan fenywod am Oruchwylwyr Bydwragedd. Fodd bynnag, dim ond 10% o'r ymatebwyr (n=5) a oedd yn ymwybodol o'r cyfle i drafod â Goruchwyliwr Bydwragedd i gael cyngor neu gymorth os oedd angen. Mae hyn yn awgrymu bod cryn waith i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau bod menywod yn deall yr hyn y gall Goruchwyliwr Bydwragedd ei wneud i'w cynorthwyo.

Dywedodd 92% o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon ar y gofal yr oeddent wedi'i gael, gan nodi ei fod yn "rhagorol", "gwych", "ymarferol", ac yn "llawn gwybodaeth".

Teimlai 22% na ellid gwella dim arno, ac roedd sylwadau'r rhai a nododd sut y gellid gwneud gwelliannau yn canolbwyntio mwy ar faterion sefydliadol nag ar ymarfer bydwreigiaeth.

## Materion sefydliadol

Soniodd un fenyw am barhad gofal, gan ddweud iddi weld 4 bydwraig wahanol yn ystod ei bechiogrwydd, ond nodwyd mai eithriad oedd hwnnw.

Gwnaeth dwy fenyw sylwadau am y pwll a ddefnyddir yn y Drenewydd, gan nodi nad oedd wedi'i gysylltu â'r plymwaith, a achosodd oedi wrth aros i'r pwll gael ei lenwi.

Canfuwyd bod yr amgylchedd clinigol yng Nghanolfan Enedigaethau Aberhonddu yn lân ac yn cynnig croeso; mae ystafell ar gyfer preifatrwydd, a chydabuwyd bod awyrgylch cadarnhaol, anghlinigol yno.

Roedd peth gwybodaeth ynglŷn â dyfodol goruchwyliaeth ar ôl i'r drefn o oruchwyliaeth statudol ddod i ben yn 2017. Mynegodd rhai bydwragedd bryderon gwirioneddol am lefel y cymorth y gallant ei gael gan y tîm rheolwyr, a'r farn oedd fod ganddynt flaenoriaethau gwahanol, o bosibl. Gwybodaeth brin a oedd i'w weld ynghylch y cynllun ar gyfer cymorth ar ôl i'r statud ddod i rym, gan ddangos bod angen sicrhau bod cynllun cyfathrebu'n cael ei drefnu i roi sicrwydd i fydwragedd yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Barn yr uwch-fydwragedd a gyfrannodd oedd hon.

## 10 Monitro

Mae'n ofynnol cyflwyno cynllun gweithredu i'r AGLI cyn pen 6 wythnos ar ôl cael yr adroddiad hwn a'r argymhellion. Os oes unrhyw feysydd nad ydynt wedi'u cyflawni, dylai'r cynllun gweithredu ynglŷn â'r rhain gael ei ddiweddarau bob chwarter a'i gyflwyno i'r AGLI i roi gwybod iddo am y cynnydd a wnaed.

Ar ôl i'r statud gael ei dileu, y bwriedir i'r broses fynd rhagddi ym mis Mawrth 2017, bydd y gwaith o fonitro'r cynllun gweithredu yn cael ei drosglwyddo i Bennaeth Bydwreigiaeth ym Mhowys, sef Mrs Cate Langley.

Nododd tîm archwilio'r AGLI y meysydd a ganlyn o arferion da:

- Mae'r Goruchwyliwr Bydwragedd wedi gwella ei hamlygrwydd a'i hygyrchedd yn sylweddol er gwaethaf y sefyllfa ddaearyddol heriol

- Cymorth gan y Goruchwyliwr Bydwagedd i fydwagedd gan gynnal trafodaethau myfyriol â'r bydwagedd
- Rhoi gwerth ar briodweddau personol y Goruchwyliwr Bydwagedd, sef bod yn gefnogol ac yn gyfeillgar, a pheidio â barnu
- Rhyngwyneb cryf y tu mewn i'r fframwaith llywodraethu
- Bod yn bresennol mewn sesiynau goruchwyliaeth grŵp er bod ardal ddaearyddol eang
- Cymorth i fyfyrwyr-fydwagedd.

Mae tîm archwilio'r AGLI wedi tynnu sylw at yr argymhellion a ganlyn ynghylch meysydd i'w gwella:

- Mae'n bosibl y bydd y newid diweddar o ran y Goruchwyliwr Bydwagedd yn effeithio ar y gwelliannau a wnaed o ran amlygrwydd a hygyrchedd, gan nad yw wedi'i chyflogi gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Byddai sicrhau bod y Goruchwyliwr Bydwagedd yn gallu cael gafael ar adroddiadau Datix yn gwella prosesau llywodraethu presennol, er nad yw'r Goruchwyliwr Bydwagedd sy'n dod i'r swydd, ac sy'n gweithio i'r GIG, yn gweithio i'r bwrdd iechyd ar hyn o bryd, sy'n amharu ar allu'r Goruchwyliwr Bydwagedd newydd i gael gafael ar adroddiadau
- Gwella prydlongdeb ymchwiliadau yn unol â'r canllawiau a argymhellir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, sy'n nodi cyfnod o 60 diwrnod
- Gweithio mewn partneriaeth yn well ar raglenni ymadfer i fydwagedd yn dilyn ymchwiliad
- Dylid diweddarau gwefan y bwrdd iechyd er mwyn iddi gynnwys gwybodaeth i fenywod ynghylch pryd y dylid galw Goruchwyliwr Bydwagedd a dolen i'r daflen Cymru gyfan ynghylch cyflawni ("Delivering for You")
- Y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd i ddechrau'r broses o gyfathrebu â bydwagedd ynglŷn â'r cynllun ar gyfer cael model newydd o oruchwyliaeth, er mwyn eu sicrhau.

## 11 Casgliad

Mae'r AGLI yn dal yn ddiolchgar i bob Goruchwyliwr Bydwagedd, a fu yn y swydd ac sy'n ei gwneud yn awr, am eu hadborth a'u hymrwymiad i ddarparu goruchwyliaeth statudol, a'r cyfraniad y maent yn ei wneud o ran helpu bydwagedd i helpu menywod.

Hoffai'r AGLI ddiolch hefyd i Sue Jose, sy'n gadael ei swydd yn Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol ym mis Hydref 2016, a hoffai groesawu Lindsey Hilldrup, a fydd yn ymgymryd â'r swydd yn ei lle.

Yn sicr, yr her fwyaf o ran darparu goruchwyliaeth statudol ledled y DU yn y 12 mis diwethaf fu cynnal y momentwm a'r ymrwymiad i'r swydd tra bo newid deddfwriaethol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn dod i rym. Fodd bynnag, mae'r AGLI a'r Tasglu yng Nghymru yn dal i fod mewn sefyllfa i arwain y ffordd â model goruchwyllo newydd, gan adeiladu ar sail llwyddiannau

presennol a chymorth cenedlaethol i gynnal rhagoriaeth mewn arferion clinigol.



## 12 Atodiadau

### 1.1 Atodiad 12.1 – Rhaglen AGLI Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Rhaglen yr Archwiliad Blynyddol o'r Safonau ynghylch Goruchwylio Bydwagedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Dyddiad** 13 Hydref 2016

**Lleoliad:** Ystafell Jack, y Ganolfan i Blant, Ysbyty Aberhonddu, LD3 7NS

#### Tîm Adolygu'r AGLI:

Lindsey Hilldrup, Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLI)

Alison Jones (Goruchwyliwr Bydwagedd)

Lynn Smith-Hurley (Goruchwyliwr Bydwagedd)

Diana Milne, Adolygydd Lleyg

		Diwrnod 1
Rhif	Amser	Gweithgaredd
1	09.15	<b>Cyrraedd a Choffi</b>
2	09:30	Gair i gyflwyno'r diwrnod, gan dîm adolygu'r AGLI  Cyflwyniad gan Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI ynghylch diben y broses o archwilio goruchwyliaeth yn 2016/17 a chyfeiriad goruchwyliaeth yn y dyfodol fel y'i pennir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth  Cyfarwyddwr Nyrsio Cyfarwyddwr Meddygol Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch Rheolwr Cyfarwyddiaeth Menywod a Phlant Pennaeth Bydwreigiaeth Uwch-fydwagedd Bydwraig Datblygu Ymarfer Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth Bydwagedd
3	09:50	Cyflwyniad 15 munud i roi trosolwg, a bwrdd stori gan Oruchwylwyr Bydwagedd lleol, i gynnwys:  1. Crynodeb o'r cynnydd o ran cyflawni Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2016–17 2. Enghreifftiau o Arferion Da a llwyddiannau'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd lleol 3. Enghreifftiau o ddysgu'r gwersi / cau'r cylch yn sgil ymchwiliadau goruchwylio 15 munud o Gwestiynau ac Atebion

<b>4</b>	10:15	Tîm 1: Pennaeth Bydwreigiaeth, Cate Langley  Tîm 2: Rheolwr Cyfarwyddiaeth Menywod a Phlant – Julie Richards
<b>5</b>	10:45	<b>Egwyl</b>
<b>6</b>	11:00	Tîm 1: Helen Hayes, Cyfarwyddwr Clinigol  Tîm 2: Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth, Lindsey Phillips
<b>7</b>	11:20	Tîm 1: Ansawdd a Diogelwch, Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Wendy Morgan  Tîm 2: Uwch-fydwagedd – Dr Marie Lewis
<b>8</b>	11:40	Bydwagedd (Band 7)
<b>9</b>	12.00	Bydwagedd (pawb)
<b>10</b>	12.45	<b>Cinio yn Ystafell Jack</b>
<b>11</b>	13:30	Tîm 1: Myfyrwyr-fydwagedd  Tîm 2: Defnyddwyr gwasanaethau
<b>12</b>	14:00	Taith o amgylch yr uned i wirio tystiolaeth yn yr amgylchedd clinigol a chwrdd â defnyddwyr gwasanaeth, bydwagedd a myfyrwyr-fydwagedd
<b>13</b>	15.30	Cyfarfod o'r tîm adolygu i ddod â'r canfyddiadau cychwynnol at ei gilydd (dros goffi)
<b>14</b>	16.00	Adborth cychwynnol o archwiliad yr AGLI
<b>15</b>	<b>16.30</b>	<b>Diwedd yr archwiliad</b>



## 1.2 Atodiad 12.2 – Holiadur yr AGLI

### AGLI Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Archwiliad Blynyddol o'r Safonau ynghylch Goruchwylio Bydwragedd  
Tymor yr Hydref, 2016

Cyfweiliad â'r Goruchwyliwr Bydwragedd	Tystiolaeth a sylwadau'r tîm adolygu
<p>Rheol 4. Hysbysiadau gan yr AGLI A ydych yn rheoli proses y Bwriad i Ymarfer yn unol â'r broses bresennol</p>	<p>Tystiolaeth: Newydd-ddyfodiaid i'r swydd Ymadawyr Trosglwyddiadau Dirymu'r Bwriad i Ymarfer Cronfa ddata'r AGLI – cyflwyno'n fisol</p>
<p>Ymateb</p>	<p>Sylwadau:</p>
<p>Rheol 5 Cwmpas yr ymarfer Sut rydych yn cynorthwyo bydwragedd i gyflawni Rheol 5; cwmpas eu hymarfer</p>	<p>Tystiolaeth Goruchwyliaeth grŵp Cynorthwyo bydwragedd i ddarparu dewisiadau i fenywod Cynorthwyo bydwragedd gyda Rhaglen Ymarfer yr AGLI/cynllun gweithredu ynghylch dulliau dysgu/myfyrio</p>

	Pen bwrdd Bydwragedd mewn swyddi nad ydynt yn ymwneud â bydwreigiaeth
Ymateb	Sylwadau
Rheol 6 Cofnodion A allwch ddweud wrthym am eich cynllun i drosglwyddo a/neu archifo cofnodion er mwyn paratoi ar gyfer dileu goruchwyliaeth statudol.	Tystiolaeth Caiff cofnodion eu cadw'n ddiogel Mae'r cofnodion yn cael eu paratoi ar gyfer eu trosglwyddo/sganio a'u llwytho
Ymateb	Sylwadau
Rheol 7 Mae goruchwyliaeth ar fydwragedd wedi'i chysylltu'n agos â llywodraethu clinigol a dylai fod yn rhan annatod o brosesau llywodraethu y tu mewn i'r awdurdod goruchwylio lleol. A allwch ddarparu manylion ynglŷn â sut rydych yn cyflawni'r safon hon	Tystiolaeth Presenoldeb mewn cyfarfodydd rheoli risgiau clinigol, fforwm wardiau esgor, cyfarfod adolygu Datix, ymchwiliadau ar y cyd, adolygiadau o ddigwyddiadau anffafriol difrifol, darparu hyfforddiant gorfodol
Ymateb	Sylwadau

<p>Rheol 7 – Llywodraethu A ydych yn teimlo eich bod yn gallu uwchgyfeirio pryderon at: Y sefydliad Yr AGLI A ydych yn teimlo bod eich pryderon yn cael ymateb priodol</p>	Tystiolaeth
<p>Ymateb</p>	Sylwadau
<p>Rheol 9 Sut rydych yn sicrhau bod myfyrwyr-fydwragedd yn gallu cael gafael ar y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd A sut rydych yn cynorthwyo'r broses o drosglwyddo o fod yn fyfyrwr i fod yn gofrestrai</p>	
<p>Ymateb</p>	Sylwadau
<p>Rheol 10 Cyhoeddi gweithdrefnau-ymchwiliadau goruchwyllo A ydych o'r farn eich bod yn barod mewn cysylltiad ag addysg a hyfforddiant i gynnal ymchwiliadau yn unol â Rheol 10</p>	<p>Tystiolaeth; Proses Ysgrifennu adroddiadau Mynediad at hyfforddiant Mynediad at systemau TG</p>

Ymateb	Sylwadau
<b>Cyfweliad â Phennaeth Bydwreigiaeth</b>	
A ydych o'r farn fod eich timau Goruchwylwyr Bydwagedd yn mynegi pryderon yn briodol? Os nad ydych, a allwch awgrymu sut y gellir gwella hyn	
Ymateb	Sylwadau
O ystyried proses ymchwilio'r AGLI, pa mor fodlon ydych chi ar: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ddull y Goruchwylwyr Bydwagedd sy'n ymchwilio o gyfathrebu</li> <li>• Y broses o gyfathrebu â'r Goruchwylwyr Bydwagedd a enwir/sy'n cynorthwyo</li> <li>• Cysylltiadau rhwng yr AGLI a phrosesau sefydliadol</li> </ul>	
Ymateb	Sylwadau

A ydych yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn gyson am themâu a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg o sesiynau goruchwyliaeth grŵp	
Ymateb	Sylwadau
A ydych yn fodlon bod y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn rhyngweithio'n effeithiol â phroses lywodraethu'r sefydliad	
Ymateb	Sylwadau
I ba raddau ydych yn cydymffurfio ar hyn o bryd o ran presenoldeb bydwagedd mewn hyfforddiant gorfodol?	
Ymateb	Sylwadau
Sut y mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn cynorthwyo'r broses aiddilysu ar gyfer bydwagedd yn	

eich sefydliad	
Ymateb	Sylwadau
Yn eich barn chi, pa broblemau a fydd i'w cael o safbwynt y bwrdd iechyd yn ystod y broses o drosglwyddo o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd).	
Ymateb	Sylwadau
A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch gwella ansawdd Goruchwylwyr Bydwagedd yn eich sefydliad?	
Ymateb	Sylwadau
<b>Cyfweliad â'r Cyfarwyddwr Nyrsio</b>	
A ydych wedi'ch sicrhau bod gan yr AGLI weithdrefn gynhwysfawr ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei rybuddio am	Rheol 7 Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod

bob risg sy'n gysylltiedig ag adroddiadau anffafriol yn sgil gwaith monitro allanol?	Goruchwyllo Lleol
Ymateb	Sylwadau
A allwch gadarnhau bod Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn gallu cyflawni ei swyddogaeth yn eich sefydliad?	
Ymateb	Sylwadau
A ydych wedi'ch sicrhau ynghylch cynaliadwyedd y model goruchwyliaeth presennol yn eich bwrdd iechyd	
Ymateb	Sylwadau
A ydych o'r farn fod yr AGLI yn effeithiol o ran crybwyll ac uwchgyfeirio pryderon a'i fod yn arfer ei rôl yn effeithlon, yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch yr ymarfer bydwreigiaeth	

yn eich sefydliad?	
Ymateb	Sylwadau
A ydych wedi'ch sicrhau ynghylch cynaliadwyedd y model goruchwyliaeth presennol yn eich bwrdd iechyd	
Ymateb	Sylwadau
Yn eich barn chi, pa broblemau a fydd i'w cael o safbwynt y bwrdd iechyd yn ystod y broses o drosglwyddo o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd)	
Ymateb	Sylwadau
A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch gwella ansawdd Goruchwylwyr Bydwagedd yn eich sefydliad ar ôl dileu goruchwyliaeth statudol?	



Ymateb	Sylwadau
<b>Bydwagedd ac Uwch-fydwagedd</b>	
A yw Goruchwylwyr Bydwagedd yn amlwg yn yr amgylchedd clinigol? A fydech yn gwybod ble yn y bwrdd iechyd y gall Goruchwylwr Bydwagedd fod i'w gael? Sut y bydech yn cysylltu â Goruchwylwr Bydwagedd y tu allan i oriau?	
Ymateb	Sylwadau
A ydych yn gwybod sut y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn cynorthwyo'r broses aiddilysu?	
Ymateb	Sylwadau
A ydych yn gwybod sut y mae'r Goruchwylwyr Bydwagedd yn cyd-fynd â phroses lywodraethu'r bwrdd iechyd?	

Ymateb	Sylwadau
Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r newid arfaethedig o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd).	
Ymateb	Sylwadau
Yn eich barn chi, pa broblemau a fydd i'w cael o safbwynt y bwrdd iechyd yn ystod y broses o drosglwyddo o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd).	
Ymateb	Sylwadau
A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch gwella ansawdd Goruchwylwyr Bydwagedd yn eich sefydliad ar ôl dileu goruchwyliaeth statudol?	

Ymateb	Sylwadau
<b>Myfyrwyr-fydwagedd</b>	
A allwch ddisgrifio rôl y Goruchwyliwr Bydwagedd a'r AGLI?	
Ymateb	Sylwadau
A ydych wedi cael cyswllt â Goruchwyliwr Bydwagedd yn y 12 mis diwethaf? Os felly, am ba reswm?	
Ymateb	Sylwadau
A ydych yn gwybod sut i gysylltu â Goruchwyliwr Bydwagedd?	

Ymateb	Sylwadau
A ydych yn ymwybodol o'r gofyniad statudol presennol i bob bydwaig fod â Goruchwyliwr Bydwragedd a enwir?	
Ymateb	Sylwadau
Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r newid arfaethedig o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd).	
Ymateb	Sylwadau

### **Rhestr wirio adolygwyr lleyg ar gyfer ymweliadau archwilio**

Diben y ddogfen hon yw galluogi'r adolygwyr lleyg i gynnal eu hymweliadau archwilio mewn ffordd sy'n gyson yn y tîm, sy'n adlewyrchu ac yn adeiladu ar sail canfyddiadau archwiliad 2015/16, ac sy'n ymgorffori'r newidiadau y gwyddys y byddant i'w cael yn y dyfodol i'r drefn o

oruchwylio bydwragedd. Er bod y rhestr wirio hon yn cwmpasu nifer o feysydd, disgwylir i'r adolygwyr llewg gyflwyno sylwadau hefyd am unrhyw beth arwyddocaol y maent yn credu bod angen tynnu sylw ato yn ychwanegol at gynnwys y rhestr wirio hon.

Mae'r rhestr wirio hon yn cynnwys saith adran:

Gwaith paratoi cyn archwilio

Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd

Cwestiynau i fydwragedd

Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwragedd

Cwestiynau i uwch-reolwyr

Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr

Sylwadau am yr amgylchedd

### **Gwaith paratoi cyn archwilio**

Adolygu'r wybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd ynghylch Goruchwylio Bydwragedd.

Ai'r rhif ar-alwad cywir a ddangosir?

A oes disgrifiad clir o'r hyn y gall goruchwylwyr ei wneud i fenywod?

A oes dolen i wefan yr AGLI (AGIC)?

A oes dolen i'r daflen ynghylch cyflawni ("Delivering for You")?

Ar hap, dewiswch un o'r lleoliadau lle y mae gwasanaethau mamolaeth yn cael eu darparu gan y bwrdd iechyd a ffoniwch y switsfwrdd gan ofyn am rif ar-alwad y goruchwylwr bydwragedd.

Ai'r rhif ar-alwad cywir a roddir ichi?

### **Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd**

Ein cyflwyno ein hunain ac egluro proses yr archwiliad.

1. Beth yw eich barn am y gofal a gawsoch gan fydwragedd drwy gydol eich beichiogrwydd a'r enedigaeth?

2. A oes unrhyw fydwraig a fu'n arbennig o barod i helpu a beth a wnaeth a oedd o gymorth yn arbennig?  
Os enwir y fydwraig/bydwr, a gawn drosglwyddo'r adborth hwn iddi / iddo?

3. A oes unrhyw beth yr hoffech ei newid, ar sail eich profiad?

4. A oes gennych chi, neu a gawsoch, unrhyw bryderon am unrhyw un o'r bydwragedd y cawsoch gyswllt â nhw?

**Os ateboch 'oes' neu 'do'** i Gwestiwn 4, ewch i Gwestiynau 4a – 4h; os ateboch '**na**c oes' neu '**naddo**', ewch i Gwestiwn 5.

- 4a A ydych wedi crybwyll eich pryderon wrth unrhyw un? Os ateboch **naddo**, ewch i **4e**  
4b Os felly, i bwy?  
4c Sut y gwnaethoch benderfynu crybwyll eich pryder wrth y person hwnnw?  
4d A oeddech yn fodlon ar y canlyniad?

Os oedd gennych bryderon ond na wnaethoch eu crybwyll wrth neb

- 4e A oeddech yn dymuno crybwyll eich pryder?  
4f Beth a wnaeth eich atal rhag dweud wrth rywun am eich pryder?  
4g A ydych wedi clywed am Oruchwylwyr Bydwragedd?  
4h Eglurwch y rôl: a hoffech siarad â Goruchwylwr Bydwragedd yn awr ynglŷn â'ch profiad?

5. Dychmygwch eich bod wedi cael pryder, er enghraifft fod arnoch eisiau math penodol o gynllun genedigaeth, a bod y fydwraig yn gwrthod ei drafod neu'n bod yn negyddol iawn yn ei gylch. Beth y byddech chi wedi'i wneud?

6. Pe baech wedi siarad â rhywun am eich pryder, beth y byddech chi am iddo'i wneud ynglŷn â'r mater?

## **Cwestiynau i Fydwragedd**

A gawsoch adolygiad goruchwylio blynyddol yn y 12 mis diwethaf?

A gafodd eich adolygiad goruchwylio blynyddol ei gwblhau yn ystod sesiwn goruchwyliaeth grŵp?

Os felly, faint a oedd yn rhan o'ch goruchwyliaeth grŵp?

A oedd ystod o fydwragedd yn yr oruchwyliaeth?

Beth a oedd o gymorth ichi yn yr oruchwyliaeth grŵp?

A oedd rhywbeth y gellid ei wella, yn eich barn chi?

Faint o sesiynau goruchwyliaeth grŵp y buoch ynddynt dros y ddwy flynedd ddiwethaf?

A ydych yn teimlo'n fwy cadarnhaol neu'n llai cadarnhaol ynglŷn â goruchwyliaeth grŵp yn awr nag yr oeddech ar ôl eich profiad cyntaf o oruchwyliaeth grŵp?

Yn eich barn chi, beth fu'r fantais fwyaf o gyflwyno goruchwyliaeth grŵp?

A ydych wedi defnyddio rhif ar-alwad y Goruchwylwr Bydwragedd i gysylltu â Goruchwylwr yn y 6 mis diwethaf?

Os gwnaethoch, sut oedd y profiad? A wnaeth ddatrys eich problem ar y pryd?

Fel y gwyddoch, bydd y drefn oruchwylio'n newid yn y gwanwyn. Pa elfennau o oruchwyliaeth fel y mae yn awr yr hoffech iddynt gael eu cadw?

A oes rhywbeth yr hoffech i oruchwyliaeth ei wneud nad yw'n ei wneud ar hyn o bryd?

A oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y model newydd arfaethedig o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr?

Pa mor dda y mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn mynd rhagddo, yn eich barn chi?

A oes rhywbeth y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud sy'n arfer arbennig o dda, yn eich barn chi?

A allwn drosglwyddo eich adborth i'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd?

Yn eich barn chi, pa rôl y bydd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei chwarae o ran helpu i leihau risgiau a dysgu gwersi yn sgil ymchwiliadau?

## **Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwragedd**

Pryd y byddwch yn cynnig goruchwyliaeth grŵp?

Beth yw'r manteision sy'n gysylltiedig â goruchwyliaeth grŵp, yn eich barn chi?

A oes unrhyw beth y byddech yn ei newid?

A allwch nodi enghraifft o rywbeth sydd wedi'i drafod mewn goruchwyliaeth grŵp ac sydd wedi gwella diogelwch y cyhoedd o ganlyniad?

A oes unrhyw beth y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud sy'n arfer arbennig o dda, yn eich barn chi?

Pa rôl rydych chi'n ei chwarae o ran helpu i leihau risgiau a dysgu gwersi yn sgil ymchwiliadau?

O gofio'r newid arfaethedig i fodol o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr, beth, yn eich barn chi, yw'r manteision i

- a. Oruchwylwyr Bydwragedd
- b. Bydwragedd
- c. Menywod a'r cyhoedd

Ac a oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y newidiadau a sut y byddant yn effeithio ar Oruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd a menywod?

Pa mor dda y mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn mynd rhagddo, yn eich barn chi?

Yn eich barn chi, beth y dylid ei roi ar waith i gymryd lle'r cymorth yr ydych yn ei gynnig i fenywod?



### **Cwestiynau i Uwch-reolwyr**

Pa mor wybodus ydych chi am yr hyn sy'n digwydd i'r drefn oruchwylio yn awr a'r cynlluniau ar gyfer gwanwyn 2017 a thu hwnt?

Beth yw'r heriau mwyaf, yn eich barn chi, o ran darparu goruchwyliaeth effeithiol yn awr ac yn y dyfodol?

Pa fanteision y mae goruchwyliaeth yn eu creu a sut bydd y rhain yn gwella neu'n newid yn y dyfodol?

Pa drefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer cynorthwyo menywod yn y dyfodol a fyddai'n cysylltu â goruchwylwr bydwragedd ar hyn o bryd?

### **Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth**

Pa gyswllt sydd gennych chi â Goruchwylwyr Bydwragedd ar hyn o bryd?

Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw goruchwylwyr o ran cefnogi dewisiadau menywod neu eu cynorthwyo gyda chwynion neu ddygymod â phrofiadau anodd?

A ydych yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i'r drefn o oruchwylio bydwragedd?

Yn eich barn chi, beth yw'r manteision sy'n gysylltiedig â'r model arfaethedig, yn arbennig o ran menywod a'u teuluoedd?

A oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig?

Beth sydd ei angen ar fenywod, yn eich barn chi, i sicrhau eu bod yn gallu gwneud eu dewisiadau gwybodus eu hunain a chael cymorth pan fu pethau'n anodd?

## Sylwadau am yr amgylchedd

Pan arsylwyd amynt:

A yw gwybodaeth am  
Oruchwylwyr  
Bydwagedd wedi'i  
harddangos yn glir  
mewn ardaloedd  
cyhoeddus?

A yw'r wybodaeth yn  
cynnwys y rhif ar-alwad  
Cymru gyfan cywir?

A yw rôl y Goruchwyliwr  
Bydwagedd wedi'i  
disgrifio'n gywir yn y  
wybodaeth sy'n cael ei  
harddangos?

A oes esboniad clir o'r  
amgylchiadau pan ddylai  
defnyddwyr  
gwasanaethau gysylltu  
â'r Goruchwyliwr  
Bydwagedd?

A yw'r daflen Cymru  
gyfan ynghylch  
Goruchwylwyr  
Bydwagedd ar gael  
mewn ardaloedd  
cyhoeddus?

Sylwadau ychwanegol  
ynghylch amlygrwydd

Goruchwyliaeth.

Sylwadau ychwanegol  
am yr amgylchedd

### 1.3 Atodiad 12.3 – Holiadur yr Adolygydd Lleyg

#### Gwaith paratoi cyn archwilio

#### Y Bwrdd Iechyd:

Adolygwch y wybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd ynghylch Goruchwyllo Bydwagedd.

Ai'r rhif ar-alwad cywir sy'n cael ei ddangos? Ie  Na

A oes disgrifiad clir o'r hyn y gall goruchwylwyr ei wneud i fenywod? Oes  Nac oes

A oes dolen i wefan yr AGLI (AGIC)? Oes  Nac oes

A oes dolen i'r daflen ynghylch cyflawni ("Delivering for You")? Oes  Nac oes

#### Nodiadau

Ar hap, dewiswch un o'r lleoliadau lle y mae gwasanaethau mamolaeth yn cael eu darparu gan y bwrdd iechyd a ffoniwch y switsfwrdd gan ofyn am rif ar-alwad y goruchwyliwr bydwagedd.

**Y lleoliad a alwyd:**

**Y rhif a ddefnyddiwyd:**

Ai'r rhif ar-alwad cywir a roddir ichi?

Ie

Na

**Nodiadau**

## **Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd**

**Y Bwrdd Iechyd:**

**Lleoliad:**

1. Ble / sut y cawsoch eich gofal yn ystod eich beichiogrwydd? A fuoch yn fodlon ar y gofal hwn?
2. A oedd unrhyw beth a oedd yn dda iawn ynglŷn â'ch gofal? Neu unrhyw un a fu'n arbennig o barod i helpu?
3. A oes unrhyw beth y gellid ei wneud yn well?
4. A oes gennych unrhyw bryderon ynghylch unrhyw un o'r bydwagedd y cawsoch gyswllt â nhw?

5. Os cawsoch broblem yng nghyswllt bydwaig, neu eich gofal yn gyffredinol, a ydych yn gwybod at bwy y gallech droi neu i ble y gallech fynd i gael cymorth / cyngor?

6. A ydych wedi clywed am Oruchwylwyr Bydwagedd? Eglurwch pwy ydynt / beth ydynt a beth y maent yn gallu ei wneud. Darparwch wybodaeth am sut i ddod o hyd i'w manylion cyswllt yn y bwrdd iechyd / lleoliad penodol.

## **Cwestiynau i Fydwragedd**

Enw:

Swydd:

### **Goruchwyliaeth Grŵp**

1. A gawsoch adolygiad goruchwylio blynyddol yn y 12 mis diwethaf, ac a gafodd ei gwblhau mewn goruchwyliaeth grŵp?
2. Trosolwg o'u goruchwyliaeth grŵp (faint, sut y'i trefnwyd, ystod y bydwragedd, unrhyw beth o gymorth, unrhyw beth y gellid ei wella?)
3. Faint o sesiynau goruchwyliaeth grŵp y buoch ynddynt dros y ddwy flynedd ddiwethaf? Mwy cadarnhaol neu'n llai cadarnhaol yn eu cylch? Y fantais fwyaf? Yr agwedd negyddol fwyaf?

### **Goruchwyliaeth ar-alwad**

4. A ydych wedi defnyddio rhif ar-alwad y Goruchwyliwr Bydwragedd i gysylltu â Goruchwyliwr yn y 6 mis diwethaf? Os ydych, sut oedd y profiad? A wnaeth ddatrys eich problem ar y pryd?



## Ymchwiliadau

5. Beth yw eich barn ynglŷn â rôl y Goruchwyliwr Bydwagedd mewn ymchwiliadau? Cadarnhaol / negyddol? A ydynt yn helpu i leihau risgiau / dysgu gwersi? A gawsoch brofiad uniongyrchol o ymchwiliad?

## Newidiadau i'r Drefn Oruchwylio

6. A ydych yn gwybod am y newidiadau i'r drefn oruchwylio a fydd ar waith erbyn y gwanwyn nesaf? A ydych yn teimlo'n wybodus ynglŷn â'r newidiadau? A oes gennych unrhyw bryderon am y model newydd arfaethedig o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr? Pa mor dda y mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn mynd rhagddo, yn eich barn chi?

7. Pa elfennau o'r model goruchwylio presennol y dylid eu cadw, yn eich barn chi? A oes unrhyw beth yr hoffech i oruchwyliaeth ei wneud nad yw'n ei wneud ar hyn o bryd?

8. A ydych yn gwybod sut y bydd menywod yn cael eu cynorthwyo o dan y model newydd?

## Adborth

9. A oes unrhyw beth y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud sy'n arfer arbennig o dda, yn eich barn chi? A allwn drosglwyddo eich adborth i'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd?

## **Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwragedd**

### **Goruchwyliaeth Grŵp**

1. Sgwrs gyffredinol am eu goruchwyliaeth grŵp, sut y mae'n cael ei threfnu, presenoldeb, adborth ac yn y blaen.
2. Y manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â goruchwyliaeth grŵp?
3. Enghraifft o rywbeth sydd wedi'i drafod mewn goruchwyliaeth grŵp ac sydd wedi gwella diogelwch y cyhoedd o ganlyniad.

### **Ymchwiliadau**

4. Pa rôl rydych chi'n ei chwarae o ran helpu i leihau risgiau a dysgu gwersi yn sgil ymchwiliadau?

## Arferion Da

5. A oes unrhyw beth y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn ei wneud sy'n arfer arbennig o dda, yn eich barn chi?

## Newidiadau i'r Drefn Oruchwyllo

6. A ydych yn teimlo eich bod yn wybodus ynglŷn â'r newidiadau i'r drefn oruchwyllo? A yw'r wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu yn y sefydliad? Pa mor dda y mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn mynd rhagddo, yn eich barn chi?

7. O gofio'r newid arfaethedig i fodol o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr, beth, yn eich barn chi, yw'r manteision i:

- a. Oruchwylwyr Bydwragedd
- b. Bydwragedd
- c. Menywod a'r cyhoedd

8. A oes gennych unrhyw bryderon am y newidiadau a sut y byddant yn effeithio ar Oruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd a menywod?

9. Yn eich barn chi, beth y dylid ei roi ar waith i gymryd lle'r cymorth yr ydych yn ei gynnig i fenywod? A yw eich sefydliad yn gwneud unrhyw gynlluniau ar gyfer y maes hwn?



## **Cwestiynau i Uwch-reolwyr**

1. Pa mor wybodus ydych chi ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd i'r drefn oruchwylio yn awr a'r cynlluniau ar gyfer gwanwyn 2017 a thu hwnt?
2. Yn eich barn chi, beth yw'r heriau mwyaf o ran darparu goruchwyliaeth effeithiol yn awr ac yn y dyfodol?
3. Pa fanteision y mae goruchwyliaeth yn eu creu a sut y bydd y rhain yn gwella neu'n newid yn y dyfodol?
4. Pa drefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer cynorthwyo menywod yn y dyfodol a fyddai'n cysylltu â goruchwylwr bydwagedd ar hyn o bryd?



## **Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth**

Enw:

Sefydliad:

1. A ydych yn gwybod beth yw Goruchwyliwr Bydwagedd? A roddir gwybod i chi / eich sefydliad am Oruchwyliaeth? Pa gyswllt sydd gennych / a fu gennych â Goruchwylwyr Bydwagedd?
2. A ydych yn gwybod pa mor effeithiol yw goruchwylwyr o ran cefnogi dewisiadau menywod neu eu cynorthwyo gyda chwynion neu ddygymod â phrofiadau anodd?
3. A ydych yn meddwl bod menywod yn gwybod am Oruchwyliaeth a Goruchwylwyr Bydwagedd?
4. A ydych yn gwybod am y newidiadau arfaethedig i'r drefn o oruchwyllo bydwagedd?

5. Yn eich barn chi, beth yw'r manteision / anfanteision sy'n gysylltiedig â'r model arfaethedig, yn arbennig o ran menywod a'u teuluoedd?
  
  
  
  
  
  
  
  
  
  
6. Yn eich barn chi, beth sydd ei angen ar fenywod i sicrhau eu bod yn gallu gwneud eu dewisiadau gwybodus eu hunain a chael cymorth pan fu pethau'n anodd?
  
  
  
  
  
  
  
  
  
  
7. Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau o ddsbarthu gwybodaeth i fenywod a'u teuluoedd?

## Gwybodaeth am Oruchwylwyr Bydwagedd a Sylwadau am yr amgylchedd

### Lleoliad

A yw gwybodaeth am  
Oruchwylwyr  
Bydwagedd yn glir  
mewn ardaloedd  
cyhoeddus?

Ai'r rhif ar-alwad  
Cymru gyfan cywir a  
ddangosir?

A yw rôl y  
Goruchwyliwr  
Bydwagedd wedi'i  
disgrifio'n gywir yn y  
wybodaeth?

A oes esboniad clir o'r  
amgylchiadau pan  
ddylai defnyddwyr  
gwasanaethau gysylltu  
â Goruchwyliwr  
Bydwagedd?

A yw'r daflen Cymru  
gyfan ynghylch  
Goruchwylwyr  
Bydwagedd ar gael  
mewn ardaloedd  
cyhoeddus?

Sylwadau eraill  
ynghylch amlygrwydd  
Goruchwyliaeth /  
Goruchwylwyr

Sylwadau cyffredinol  
am yr amgylchedd